

STEFFAN DAFYDD EDDIE LADD WYN MASON TELERI LEA IAN ROWLANDS  
LLIO MAI MORGAN OWEN MEGAN JOHN CARL OWEN MELANGELL DOLMA

# Y STAMP

RHIFYN 5

Y THEATR

HAF 2018





Teleri Lea  
(tud. 19)



# Y STAMP

## RHIFYN 5: Y THEATR HAF 2018

### CYNNWYS

<b>Golygyddol</b> - Llŷr Titus .....	4
Stori Fer - Melangell Dolma .....	6
Cerdd - Efa Lois .....	9
Ysgrif - Carl Owen .....	10
Ysgrif - Wyn Mason .....	12
<b>Cartrefi Cymru 2.0</b>	
Mari Elen .....	13
Emyr Morris-Jones .....	14
Darn creadigol - Annes Elwy .....	15
Gweithgaredd - Eddie Ladd .....	16
<b>Ymateb i gelf</b> - Lois Llywelyn .....	18
<b>Celf</b> - Teleri Lea .....	19
Nodiadau'r Dylunydd - Erin Maddocks .....	20
<b>Cyfweliad</b> - Megan John .....	24
Ysgrif - Ian Rowlands .....	27
Nodiadau'r Dylunydd - Efa Dyfan .....	29
<b>AilBobi Jones</b> - Llio Mai .....	30
Cerdd - Aled Lewis Evans .....	32
<b>Adolygiadau</b>	
<i>Cyfansoddiadau Llenyddol Yr Urdd</i> .....	33
<i>Taith Globe on Tour</i> .....	33
<i>Hometown Tales: Wales</i> .....	34
<i>The Mabinogi</i> .....	35
<b>Adnabod yr Artist</b> - Steffan Dafydd .....	36
<b>Y Cast</b> .....	37

Hawlfraint © 2018 Y Stamp

Argraffwyd yn Nhal-y-bont gan  
Y Lolfa

**Golygyddion** Grug Muse  
Llŷr Titus  
Miriam Elin Jones  
Iestyn Tyne

**Celf y Clawr** Steffan Dafydd  
**Atodiad** Morgan Owen

**Dylunydd** Iestyn Tyne

Barn awduron unigol a gyhoeddir  
yn *Y Stamp*, ac nid o reidrwydd  
rhai'r cylchgrawn a'i olygyddion.

#### DIOLCH

I gynulleidfa hyfryd lansiad Rhi-  
fyn 4 yn y Fic, Llithfaen; i'r  
Lolfa am eu gwaith argraffu cy-  
men; I CHI, ddarllenwyr annwyl;  
ac yn bennaf oll, i'r holl  
stampwyr disglair sy'n eich dis-  
gwyl rhwng y cloriau hyn.

#### Lluniau

Tud. 13 - **Arthur C. Harris**  
Trwydded: [https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0/  
legalcode](https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0/legalcode)

[ystamp.cymru](http://ystamp.cymru) // [@ystampus](https://twitter.com/ystampus) // [facebook.com/ystampus](https://facebook.com/ystampus)

[golygyddion.ystamp@gmail.com](mailto:golygyddion.ystamp@gmail.com)



# GOLYGYDDOL

## LLŶR TITUS



## THEATR CAIB A RHAW

### Ryda ni'n genhedlaeth od. Y

genhedlaeth ar ôl y rhai gafodd bob dim ar blât wedi'r rhyfel, yr un jesd cyn i betha fynd ar chwâl go iawn falla. Taswn i'n gorfod deud be ydi ysbryd ein hoes ni ar hyn o bryd, mi faswn yn datgan yn obeithiol mai un o ymarferoldeb ydi o. Da ni'n gwybod na fedra ni ddibynnu ar y rhai a ddaeth o'n blaenau ni, da ni'n gwybod na fydd cyrff cyhoeddus, cyngorau a llywodraethau'n gallu cynnig ffadan beni i ni yn o fuan. Da ni'n sylwi, o bosib, fod yna ddibyniaeth ar grantiau a bod diffyg pres yn esgus handi i beidio gwneud dim. Felly mae na rai yn dechrau helpu'i hunain a diolch byth, nid ond y ni griw *Y Stamp* sydd wrthi.

Mae 'na gwyno wedi bod nad oes yna ddigon o gyfleon i bobol ifanc ym myd y theatr, a'i bod hi'n anodd i rywun gael y cyfle i ddechrau arni. Debyg fod hynny'n wir. Yn gyffredinol am wn i mae hi'n gallu bod yn anodd torri'r mur a chymryd y cam cyntaf ac yn ymddangosiadol beth bynnag mae na lwybrau penodol ac os nad ydi rhywun yn gwybod am danyn nhw mae hi'n job

symud ymlaen.

Mae 'na sawl cynllun ar waith sydd yn cynnig cyfleoedd, ac yn ôl yr hyn dwi'n ddeall fe fydd yna fwy o bwyslais ar hynny yn y dyfodol. Gwych iawn, dwi'n mawr obeithio nad cyfleoedd PR da i gwmnïau ydyn nhw a'u bod nhw—yn hytrach nac un digwyddiad neu un hwb bach dros dro— yn gynlluniau mwy realistig hir dymor Fydd yn cynnig amrywiaeth o ran dulliau ymarfer a ffordd o feddwl am theatr. Gwneud i ddysgu mae rhywun, nid i gael ei ddefnyddio fel arf marchnata neu fel boc i dicio at y cais grant nesa.

Wrth gwrs, rhaid bod yn ofalus nad ydi cyfleoedd fel hyn yn troi'n gyfle i gwmni fanteisio ar berfformiwr, technegydd neu sgwennwr ifanc a chymryd diffyg profiad fel esgus i chwarae reiat hefo gwaith, neu i dwyllo rhywun mai dim ond un ffordd sydd o weithio a chreu cynhyrchiad. Peth arall sydd yn ymddangos yng ngwisg cyfle ydi'r arferiad o beidio a rhoi pris teg am waith. Mae o'n digwydd, dwi'n siarad o brofiad, a di o ddim yn iawn. Tydi hynny

ddim yn deud nad oes na le i fynd i weithio am ddim, neu i wneud rhywbeth am bres petrol, matar o sefyllfa benodol ydi hi bob tro, ac o barch hefyd. Mae na rai mudiadau— fel y Stamp— sydd heb bres i'w gynnig, ac mae hynny'n iawn, dim ond fod pawb yn dallt be di be.

Eto i gyd, mae na gwyno nad ydi pobol yn gwneud digon. 'Lle mae'r pres cyhoeddus ma'i gyd yn mynd?' medda nhw. 'Oes rhaid talu cyflog pymtheg mil o swyddogion marchnata?' 'Pam nad oes na w bath yn digwydd ymhellach na pum milltir o Fae Caerdydd a/neu y theatrau mawrion?' Pwyntiau teg bob un. Ffendiwch fi mewn bar os am drafodaeth ehangach.

Ond beth am oedi, a meddwl am y syniad hwnnw i ddechrau cychwyn. Pam bod yn rhaid i rywun arall gynnig y cyfle i ni? Ydan ni wedi mynd i ddisgwyl bob dim ar blât? Ydi naratif fel hon yn pasio'r gyfrifoldeb ymlaen ac yn hytrach na bod yn esboniad dros ddiffyg yn esgus bach handi i wneud ffyc ôl mond byta cheese puffs a gwatchad Netflix? Achos coeliwch ne beidio, mae gennym ni ddyletswydd

hefyd.

Tyda ni'm yn chwech oed, yn cnocio ar ddrws ffrind ac yn gofyn caniatâd i gal mynd allan i chwara. Does dim angen sêl bendith neb, na neb i ddal eich llaw a sychu'ch tin chi.

Isio dechra cwmni theatr? Casglwch ffrind neu ddau neu dri, neu neb, meddylwch am enw. Dyna chi, da chi di dechra un. Isio actio? Cerwch ar lwyfan mewn neuadd bentra, capal, Carnegie hall, a gwnewch o. Isio sgwennu? Sgwennwch! Dio'm ots os nad oes na neb di gofyn wrtha chi neud. Cadwch o mewn drôr neu gyrrwch o i gwmni theatr proffesiynol. Mynnwch gal barn rhywun am dano fo. Y bos mawr yn deud fod o'n shit? Da iawn! Dio'm ots, mae yna un peth yn y byd 'ma sy'n bodoli na fasa'n bod tasa chi heb drïo.

Byddwch yn ymarferol, gyfeillion. Dwi'm yn lecio'r gair 'creu' - mae o'n ymhonnus, yn air sy'n cael ei ddefnyddio gan gwmni marchnata a phobol greadigol sy'n rhy brysur yn byw rhyw ddefnydd o fywyd arti-ffarti bohemian i fynd ati i 'greu' go iawn. Gwell o lawar ydi'r gair 'gwneud'. Gwnewch rwbath, mae gwneud yn air mynd, yn air symud. Tra bod pobol y creu yn ista mewn fflart yng Ngaerdydd — neu'r Caerdydd tu draw i Fachynlleth, Caernarfon — yn meddwl am be fasa ora, yn creu syniadau am brofiadau aesthetig hyfryd ond disylwedd, ma pobol y gwneud allan yn gweithio. Fel dudodd un o fy hoff awduron— os newch chi freuddwydio, a choelio yn eich hun, a chadw egni positif bob amsar... mi gewch chi'ch maeddu o hyd gan y bobol hynny sy'n gweithio, yn gwneud, ac yn dysgu.

Nid bod yn cwl, rhyngweithio, marchnata a chal eich gweld ydi theatr yn ei hanfod ond gwneud.

Mae snobyddiaeth yn rhan ohono fo hefyd — y syniad o geisio gwneud rwbath, ond ddim fel'na. Isio gneud rwbath cwl sy'n mynd i edrach yn dda pan mae o ar Instagram. Angan llwyfan fawr, gola llachar yn hytrach na jesd mwynhau. Yr hyn sydd yn rhaid i rywun gofio ydi mai dechrau wrth eich traed ydi ffordd y bobol wneud, heb fyjet fel arfar.

Dio'm ots os ydi'r props yn sâl neu ddim yn bodoli o gwbl — benthycwch, dwynwch. Y peth braf am wneud rwbath eich hun ydi'ch bod chi'n gallu gweithio i siwtio yr adnoddau, neu eu diffyg nhw. Tydi'r gair amatur ddim yn un budur chwaith — mi fedr wch chi fod yn gymdeithas ddrama neu gwmni amatur hefo'r un safon â chwmni proffesiynol neu'n uwch. Gweithio hefo be sgyrnoch chi ydi'r syniad. Tydi mwy o bres a mwy o ffigiârns ddim yn golygu bod rhywbeth yn well.

Mae na ofn methu hefyd, a rhyw syniad fod parhad rhywbeth yn hanfodol— bod dechrau cwmni neu gymdeithas yn golygu bod rhywun yn gosod sylfaen i'r oesoedd a ddêl. Ond hyd yn oed os ydi'r peth yn mynd yn ffliwt ar ôl y perfformiad cynta, tydio'm yn fethiant. Llosgwch yn llachar ar lwyfan a diflannu i'r nos — dio'm ots, does wybod be fydd canlyniadau'r digwyddiad hwnnw, pwy gaiff eu hysbrydoli neu be ddaw i'ch rhan chi. Tydi pob dim ddim yn para'n hir, ac ma hynny'n berffaith iawn.

Mantais fawr mynd ati fel hyn ydi'r rhyddid. Wedi cael profiad cas hefo cyfarwyddwr / actor / dramodydd? Mi gewch chi sgwennu, actio a chyfarwyddo'ch hun os leciwch chi. Os ydi hynny'n ormod o ego trip yna beth am gasglu chydig o ffrindiau at ei gilydd, pobol sy'n fodlon deud bod rhywbeth yn shit ac y medr wch chi ddeud ffoc off wrthyn nhw gan wbod y bydd pob dim yn iawn bora wedyn.

Mae criwiau bach fel rhain yn fwy symudol ac yn gallu ymatab i bethau. Heb orfod llunio rhaglen waith flwyddyn ymlaen amser fel bod modd cael pres i'w gwneud hi, mi fedr rhywun roi cynhyrchiad at ei gilydd i ymatab i ddigwyddiad neu deimlad cyfnod, neu ganslo un sydd ddim yn gweithio ac ail-ddechra. Chi fydd y brwydrwyr guerilla sy'n rhydd i ddychan, i fod o ddifri neu i fod yn wirion.

Wrth gwrs, does na'm cyflog o fynd ati fel hyn. Mae o'n anodd, yn cymryd amsar, a dwi'n gwobod nad ydi pawb mewn sefyllfa i jansio y bydd gneud panto yng ngwyl haf Llantwlltinnunlla yn

dod â phres i fewn, ond ma na lot o bobol sy'n gwneud dim pan y galla nhw wneud rwbath hefyd. Rwan ydi'n amsar ni, dani'n ifanc, heb forgej, ma'n oferheads ni'n gymharol isal, fedra ni fyw ar lagyr a phacedi crisps am wsos os oes rhaid. Chawn ni ddim cyfla fel'ma eto.

Mae'r theatr broffesiynol yn datblygu yn fwy-fwy canolog, biwrocraidd a chyfyng o ran ei rhyddid ac mae lle i ddadlau fod natur y theatr yng Nghymru yn gogwyddo at fod yn un elitaidd— pam ddylai rhywun orfod gyrru am hanner awr, awr neu fwy a thalu dros ddegpunt i weld drama? Nid pawb fedr, nid pawb sydd isio. Cofiwch mai theatr gymunedol, deithiol, ydi'r un gynhenid yng Nghymru— un llawn cwmniâu bychan lleol a oedd yn diwallu anghenion cymunedol yn bennaf. Pobol yn teithio ac yn actio ar ben drws neu ar damad o wellt glas oedd yr Anterliwtwyr. Dyna ydi'n theatr ni, nid rhyw gopi o theatr Shakespeariaidd ddinesig. Cerwch at eich cynulleidfa, a mawr fydd eich gwobr.

Yr unig beth mae fy nghynnig i yn wneud ydi democateiddio theatr ymhellach, ym mhob ystyr. Mae na lwybr arall — tydi o ddim i bawb, ond dyma'ch atgoffa ei fod o yna. A does wybod, ella y bydd y criw bach yn magu stêm ac yn dod yn un proffesiynol ac mae hynny'n grêt, nid maniffesto yn erbyn hynny sydd gen i ond yn hytrach un o blaid dechrau arni eich hunain. A tydi'r golygyddol yma ddim yn ymosodiad ar gwmniâu proffesiynol chwaith ond yn hytrach yn apêl i bobol weld nad dilyn y drefn ydi'r unig ffordd ac nad ydi monopoli syniadaethol o ran heiarachiaeth unigolion o fewn cwmni a dull ymarfer yn beth llesol i neb.

Derbyniwch nad oes neb isio i chi wneud dim, nad oes neb yn poeni, nad oes yna help a bwyd llwy i chi. Derbyniwch mai'r unig beth sydd gennych chi ydi'r crys ar eich cefn a be sydd yn eich pen chi. Ydi o'n codi ofn arnoch chi? Da iawn. Rwan gwnewch w bath.

Brynmawr  
Gorffennaf 2018

## 👉 ARTISTIAID! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

Rydym yn chwilio am artistiaid i arddangos eu gwaith ar gloriau'r dyfodol - cysylltwch os oes gennych ddiddordeb!

## MELANGELL DOLMA

## RHYW FATH O LWYBR

**Mae Glain yn disgyn mewn cariad yn hawdd.** A disgyn ydi'r gair. Baglu a glanio'n bendramwnwgl ar lawr, yn drwsogl a blêr, heb syniad sut y cyrhaeddodd hi yno. Dim ond wedyn mae hi'n edrych o'i chwmpas a gweld y smonach a greodd hi ar ei ffordd i lawr wrth grafangu am unrhyw beth i'w sadio 'i hun.

Ond mae hi'n ymwybodol iawn o hynny erbyn hyn. Dyna pam mae hi'n eistedd ar y pen pellaf i'r cylch oddi wrth Jac ar fore cyntaf ymarferion. Mae hi'n casáu boreau cyntaf. Yr holl nerfau a disgwyliadau, a phawb yn trio gwneud yr argraff orau posib. Mân siarad cwrtais dros baneidiau, ac ambell un sydd wedi gweithio efo'i gilydd o blaen yn gwneud sioe fawr o gofleidio'n serchus. Galwa'r cyfarwyddwr ar i bawb eistedd mewn cylch i gyflwyno'i hunain fesul un cyn dechrau ar y *readthrough* cyntaf. Mae hyn am gymryd oes, meddylia Glain. Mae 'na ddeugain o bobl yn yr ystafell yn hawdd, a dim ond un-ar-ddeg sydd yn y cast felly dyn â wŷr pwy 'di'r gweddill. Pwy bynnag ydyn nhw, does ganddi'm gobaith o gofio'u henwau nhw i gyd.

Mae Paul, y cyfarwyddwr, yn cyflwyno'i hun ac yn rhoi sbêl bach am ba mor gyffrous ydi cael pawb at ei gilydd o'r diwedd, a wedyn rownd a nhw o amgylch y cylch. O leia 'dio'm di gofyn i ni roi ffaith ddifyr amdano ni'n hunain, diolcha Glain.

"Mair 'dwi a fi 'di'r - ym... fi di'r Cydlynnydd... o, sori!" chwârddar' ddynas swil bedair sedd draw oddi wrth Glain. Mae'n trio eto. "Cydlynnydd Gweithredu Datblygiadol!" meddai o'r diwedd.

Sut ddiawl 'da ni fod i wybod be' mae hyna'n olygu, os 'di hi'm hyd yn oed yn gallu cofio teitl ei swydd ei hun? meddylia Glain. Ond chaiff hi'm cyfle i feddwl mwy am y peth gan fod Tomos drws nesaf iddi newydd gyflwyno'i hun fel yr actor sy'n chwarae rhan Silvius, a'i thro hi 'di hi rwan.

"Glain 'dwi, a fi sy'n chwarae Rosalind", meddai'n ddigon uchel i bawb ei chlywed. Gwena ac edrych o gwmpas y cylch, heb wneud cyswllt llygad uniongyrchol â neb. Neu dyna oedd y bwriad beth bynnag. Rhoi'r argraff o fod yn siarad â phawb, heb ymrwymo i neb. Ond hanner ffordd o gwmpas y cylch ma'i llygaid hi'n glanio ar lygaid gwyrddion Jac. Mae o'n gwenu arni. Shit. Mae ei

hanadl yn dal yn ei gwddf a theimla ei bochau'n gwrido'n syth.

Jac sy'n chwarae Orlando. Mae o'n ddeniadol yn y ffordd gonfensiynol y mae disgwyl i brif actor fod, ac yn gwybod hynny hefyd. Ond mae o'n actor reit dda i fod yn deg – dim yn un o'r rheini sy'n dibynnu'n llwyr ar eu hedrychiad i gael rhannau. Gwelodd Glain o'n chwarae Gwilym Brewys ychydig flynyddoedd yn ôl a meddwl ei fod wedi gwneud jobyn go lew ohoni, er mai Alys oedd yn sefyll allan.

Sudda Glain yn ôl i'w sedd gan obeithio na welodd o mohoni'n coch.

"Rŵan mi gaiff y gwaith go iawn ddechrau", cyhoedda Paul gyda winc unwaith i staff y cwmni ei heglu hi nôl at eu desgiau cyfarwydd. Mae Glain yn ofalus i beidio a chael ei pharu efo Jac yn ystod y *warm up*. Fyddai rhywun ddim yn meddwl fod gweithgaredd diniwed (a thwyllodrus o anodd) fel cyfri o un i dri efo partner drosodd a throsodd yn debygol o wneud i chi ddisgyn mewn cariad efo'r person hwnnw, ond mae Glain yn gwybod yn well.

Y tro yma mae hi'n barod. Mae hi wedi paratoi ei hun ar gyfer pob posibiliad. Yn yr ystafell werdd dros amser paned, mae hi'n cyflwyno ei hun yn iawn i Jac. Ysgwyd ei law yn gadarn, ac edrych i'w lygaid, heb wrido. Dyma'r cam cyntaf. Yna, pan ddaw'r cyfle, mae hi'n sôn am Hywel. Gollynga ei enw yn gywain i mewn i'r sgwrs, wedi i Jac ei holi yn lle mae hi'n byw.

"Mae nghariad i, Hywel, a finna newydd brynu tŷ", meddai.

Daw'r llongyfarchiadau disgwylidig, a'r holi ym mha ardal o'r ddinas ac ati. Ond cyn y cwestiynu am y tŷ, gwylia Glain am yr arwydd bychan, y gydnabyddiaeth bron yn anweledig, ei fod wedi derbyn y wybodaeth. A dyna fo, yn yr eiliad cyn iddo yngan gair, mae ei ben yn tynnu nôl y mymryn lleiaf ac mae' i wyneb yn cau am i mewn rhywsut. Llwyddiant, meddylia Glain. Mae'r ffin wedi ei gosod. 'Da ni'n dau yn gwybod y rheolau rwan.

Pan oedd Glain yn ifanc a ffôl, (neu'n 'fengach ac yn ffolach, o leia), roedd hi mewn cynhyrchiad o *Deffro'r Gwanwyn*. Hogyn hyderus o Geredigion oedd yn chwarae Melchior, a gwnaeth Glain y camgymeriad o feddwl y gallai

gael get-awê efo fflyrtio efo fo gan fod ganddo yntau gariad hefyd. Dim ond fflyrtio diniwed oedd o. Ddigwyddodd 'na ddim byd rhyngddyn nhw. Wel, dim heblaw am 'chydig o ddal dwylo cyfrwys yn ystod y *freeze-frames* rhwng golygfeydd, a threulio pob eiliad posib yng nghwmni ei gilydd. Pan aeth Glain yn ôl at ei bywyd bob dydd efo dôs hegar o *post-show-blues*, doedd dim byd yr un fath. Fedrai hi'm sbio ar Rhys, ei chariad ar y pryd, yn yr un ffordd. Chyfaddefodd hi 'riod wrthi hi ei hun mai wedi disgyn mewn cariad efo'r Cardi oedd hi, heb sôn am gyfadda wrth Rhys. Ond wnaeth hi a Rhys ddim para'n hir wedi hynny.

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, mi welodd hi'r Cardi yn y Sherman yn ystod egwyl rhyw sioe, a meddwl tybed beth welodd hi ynddo fo. Boi di-nod yn gweithio'n rhy galed i guddio'i ansicrwydd efo ymffrostio gwag.

Wrth i'r ymarferion fynd ymlaen, mae Glain yn parhau i grybwyll Hywel yn aml wrth sgwrsio efo Jac. Mae hi'n sôn am ei waith fel darlithydd, am y ffaith ei fod o'n ysu i gael cath, ac am eu gwyliau i wlad Groeg fis diwethaf. Nid dim ond i atgoffa Jac amdano y mae hi'n gwneud hyn. Mae hi hefyd yn ei hatgoffa'i hun.

Mae Glain yn caru Hywel. Yn ei garu yn angerddol. Mae hi'n gwybod heb unrhyw amheuaeth ei bod hi isio magu llond tŷ o blant efo fo, a thyfu'n hen efo fo, a dal ei law dros fwrdd trê'n a pheidio ei gollwng nes cyrraedd diwedd y daith. Ond adref mae Hywel rwan, yn eu tŷ bach twt yn y ddinas. Ac ym mhellafion cefn gwlad y mae hi, yn ymarfer am bedair wythnos, cyn mynd ar daith dros Brydain am dri mis.

Welith hi ddim rhyw lawer o Hywel dros y cyfnod yma, dim ond ambell benwythnos llawer rhy fyr rhwng sioe nos Sadwrn a matinée pnawn Llun. Mae nhw'n siarad ar y ffôn bob dydd yn ddi-ffael, yn Skypio os 'di'r wifin ddigon da. Ond weithiau mae hyn yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Ambell fore wrth i Glain yrru o'i llety yn nhwll-tîn-nunlla i'r stafell ymarfer ar hyd lonydd mynyddig, mae'r signal yn mynd ar ganol galwad ac mae hi'n methu dal y dagrau'n ôl. Dagrau rhwystredig, blin. Mae hi'n methu Hywel ac mae clywed cipiadau bratiog o'i lais mor bell oddi wrthi'n gwneud i'w thu

mewn hi frifo. Tydi hi'm yn cysgu'n dda iawn hebddo wrth ei hymyl.

Erbyn canol yr ail wythnos o ymarferion, mae 'na ryw fath o siâp ar hanner cynta'r ddrama. Mae pawb mwy neu lai *off-book*, oni bai am Robert druan sy'n cael cryn drafferth yn cofio areithiau hir Jaques. Mae o'n trio'i orau, ond tydi o heb fod mewn drama lwyfan ers amser maith, ac mae'n ei chael yn anodd addasu ar ôl blynyddoedd ar Pobol y Cwm.

Ar brynhawn Mercher, er mwyn rhoi seibiant i bawb oddi wrth y llinellau, mae Paul yn awgrymu ychydig o gemau a gwaith byrfyfyr. Ar ôl ambell i gêm wirion o Zip-Zap-Boing, trefna Paul bawb i mewn i barau.

"Tomos, cer di efo Glain",  
gorchmyrna.

Bachgen ifanc, newydd raddio o ysgol ddrama eleni ydi Tomos. Mae o'n annwyl a digri, yn berson hawdd iawn i fod yn ei gwmni. Mae o'n dal ac yn drwsgwl, fel petai o wedi tyfu'n rhy sydyn i allu dal i fyny efo'i gorff ei hun. Mae yna ryw beth mor agored a diniwed am ei wyneb llydan, a wna i Glain deimlo'n warchodol ohono rhywsut. Gwena'n ddrygionus arni wrth iddo setlo yn y gadair gyferbyn â hi.

"Reit, pawb yn iawn?" gofynna Paul, "Felly, 'da ni am ddal ymlaen efo be 'da ni 'di bod yn archwilio'n barod. Cwbwl sydd raid i chi 'neud ydi ymlacio, ac edrych ar y person gyferbyn â chi. Cadwch gyswllt llygad. Gadewch i'ch hunain deimlo be' 'da chi'n ei deimlo am y person yma, yn yr eiliad yma, heb farnu

dim. A jyst gweld i lle ma' hynna'n arwain chi. Does 'na ddim byd yn anghywir."

Wrth i Glain droi nôl i edrych ar Tomos, neidia gwên i'w wefusau. Yn reddfodol, gwena hithau. Mwya' sydyn mae hi'n teimlo'n nerfus. Daw ryw gnoi cyffrous i waelod ei bol, a chura'i chalon ar gan milltir yr awr. Mae hi eisiau gostwng ei phen ac edrych ar y llawr, ond mae ei llygaid wedi hoelio ar Tomos. Dal i wenu mae o, ond gwydda ei fod yntau hefyd yn nerfus.

Chwardda er mwyn trio gadael i beth o'r cynnwrf ferwi allan ohoni; chwerthiniad bychan, llawn gwynt a dim llawer o sŵn. Coda ei llaw i guddio ei cheg, i ddal gweddill ei thu mewn rhag llifo allan ohoni yn un rhaeadr blêr. Lleda ei wên o, hollti, nes troi'n ogof yng nghanol ei wyneb. Saetha ei dafod allan o'r ogof, a daw ei blaen i orffwys yn daclus ar ei wefus uchaf. Does dim byd awgrymog am y symudiad. Mae'n ystum mae o'n ei wneud heb sylwi, ac yn ei wneud yn aml. Mae Glain wedi sylwi arno o'r blaen. Mae rhywbeth plentynnaidd amdano, fel petai'n trio gwarchod ei hun rhag niwed. Daw ton o hoffter tuag ato dros Glain.

Heb feddwl, mae Glain wedi gwyro ymlaen a gosod ei llaw ar ben glin Tomos. Am eiliad mae'r ddau yn gwblwllonydd. Mae'r wên wedi llithro oddi ar eu hwyneb, a dim byd yn bodoli y tu hwnt i'w cyrff nhw. All Glain weld dim ond llygaid Tomos. Teimla drydan ym mlaenau ei bysedd lle mae nhw'n cyffwrdd ei goes, a churiad ei chalon yn ei byddaru.

Mae gwe pry cop yn ymestyn yn dynn, dynn o rywle'n ddwfn y tu mewn iddi hi, ato fo. Mae'n annioddefol bron.

Heb rybudd, chwala'r gwe a'u gollwng ill dau. Ffrwydra'r ddau mewn bonllefa o chwerthin afreolus. Rhuant, â dagrau'n cronni yng nghorneli eu llygaid. Erbyn i Paul orffen yr ymarfer gyda "Gwych, gawn ni i gyd ymgynnull?", mae bol Glain yn boenus ar ôl yr udo, ei chorff a'i meddwl yn llipa.

Y noson honno, mae Glain yn troi a throsi. Bob tro mae hi'n cyrraedd trothwy cws, mae rhywbeth yn ei hatal rhag croesi. Rhwng cws ac effro, daw wyneb Tomos yn ôl ati drosodd a throsodd. Teimla ei chalon yn drwm ac yn ysgafn ar unwaith. Fedar hi ddim ffansio Tomos. Fedar hi? Mae o bron i ddegawd yn fengach na hi. Ceisia wthio'r teimlad o'r neilltu. Rhyw ben yn ystod oriau mân y bore, llithra i gwsg anesmwyth. Pan aiff ei larwm fore trannoeth, teimla mai dim ond eiliadau ynghynt y caeodd ei llygaid.

Mae'r signal yn arbennig o wael y bore hwnnw, a thrwy speakers ei char mae llais Hywel yn swnio'n robotaid, yn bellach oddi wrthi nag erioed.

"Mae'r signal yn warthus...fedra i'm dy ddallt di", gwaedda.

Daw llanast o synau cras o'r pen arall, ac yn eu mysg clywa "...caru chdi... mmwn dy...wrnod"

"Caru chdi", meddai, ond mae'r alwad wedi dod i ben.

Trwy'r bore maen nhw'n gweithio ar olygfa rhwng Rosalind ac Orlando. Ynghanol bwrlwm yr ymarfer, tydi Tomos ddim yn croesi ei meddwl nes iddi



glywed ei lais yn y coridor wrth iddi fwyta ei chinio. Neidia ei chalon. Daw Tomos i mewn i'r stafell werdd i wneud paned a chyfarch pawb yn glên. Eistedda ger Glain ar y sofffa. Mae'r lleill yn trafod y ddawns sy'n cloi'r sioe. Mae'n rhaid i bawb ei dysgu. Unwaith eto, mae Robert druan yn methu'n lân â chofio'r camau.

Mae Glain yn ymwybodol o bob modfedd sy'n gwahanu ei choes hithau a choes Tomos. Mae hi'n sylwi ar ryw swildod newydd ynddo, na fu yno gynt. Edrycha arni yn aml, ond feiddia hi ddim edrych yn ôl.

Fedar Glain ddim bod yn ei gwmni heb gofio'r cyffro, y trydan dan ei bysedd, y byd tu hwnt iddyn nhw yn stond. Trwy weddill y dydd mae hi'n ymwybodol o bob symudiad y mae Tomos yn ei wneud. Petai hi â'i llygaid ar gau a'i chefn tuag ato, byddai'n gwybod yn union ble roedd o yn yr ystafell. Ond eto, tydyn nhw'n dweud yr un gair wrth ei gilydd.

Mae Glain yn gwybod i le mae hyn yn arwain.

\*

Ar y ffordd adref y noson honno, mae Glain yn parcio'i char wrth ymyl llyn. Mae'r signal yn gryf yma – chaiff hi ddim ei datgysylltu. Pwysa enw Hywel ar sgrîn ei ffôn, a'i godi at ei chlust.

"Haia, cariad", daw ei lais ati'n glir, "Sut wti? Sut ddwrnod?"

Anadla Glain yn ddwfn,

"Mae genai rwbath dwisio deud."

Does dim troi nôl rwan.

"Oce. Be sy'?"

"Dwi'n meddwl mod i'n ffansio rhywun yn y cast."

Tawelwch. Tawelwch llethol sy'n chwyddo i'w byddaru. Pan siarada Hywel o'r diwedd, wŷr hi ddim ai eiliadau ynteu oriau sydd wedi mynd heibio.

"Reit. Oce?"

"Dwi'n deud wrtha chdi, achos dwi'n gwobod mai peth gwirion, dibwys ydi o. Dwi'n deud wrtha chdi fel bod o ddim yn gyfrinach. Fel mod i ddim yn cadw'r peth oddi wrtha chdi. Neith o basio. A dwi'n meddwl neith o basio'n gynt wrth i mi ddeud wrtha chdi. Fydd na'm cyffro i'r peth rwan. 'Chos dyna 'di hannar yr apêl efo cal affêr, ynde? Y cyffro, y gyfrinach?"

"Dwnim", ateba Hywel yn ddrylyd.

"Sori. Shit. Dyliwn i'm 'di deud dim byd."

"Na, dwi'n falch bod chdi wedi."

"Wti?"

"Yndw. A dwi'n meddwl bod chdi'n iawn, ella."

"Dydw i'm yn mynd i ga'l affêr."

"Dwi'n gwobod, cariad," meddai Hywel yn dyner.

"Go iawn. Dydw i ddim. Byth.

Dwi'n caru chdi cymaint."

"Dwi'n caru chdi, Glain."

"Methu chdi ydw i", dyweda hithau, a'r dagrau'n bygwth.

"Dwi'n gwobod. Ond wela i di ddydd Sadwrn. A paid a phoeni am y peth."

"Jyst dewis peidio dilyn y peth, di'r peth 'de. Mae o wastad yn ddewis, dydi?"

"Yndi, wrth gwrs", meddai o.

"Dwi'n dy ddewis di", meddai hithau. "Bob tro."

# wedi methu unrhyw beth ar ystamp.cymru?


Dyma flas o'r cynnyrch a gyhoeddwyd ar ein gwefan ers y rhifyn diwethaf:

| Rhestr Ddarllen *Y Daith Grug Muse* | Cyfweiliad *Where I'm Coming From* **Durre Shahwar** a **Hanan Issa** | Cerdd *Coedwig yn Dadfeilio* **Dewi Alter** | Profiad *Ffair Lyfrau Llundain* **Eluned Gramich** | Cerdyn Post Creadigol *Nicaragua* **Lowri Ifor** | Rhifyn *Y STAMP #4* | Cerdd a Chelf *Ysgyfarnog* **Morwen Brosschot** a **Kim Atkinson** | Cerdyn Post Creadigol *O Letterkenny i Enlli* **Beth Celyn** | Cyfweiliad *Blwyddyn o Recordiau Libertino* **Gruff Owen** | Ysgrif *Ymwan â melinau gwynt* **Morgan Owen** | Ymateb *Llyfr y Flwyddyn 2018* **Catrin Beard**, **Lisa Sheppard** a **Gareth Evans Jones** | Cerdd *Torrydd 1. Tu hwnt i'r map* **Iestyn Tyne** | Ysgrif *Lleddfu Diflastod* **Non Mererid Jones** | Cerdd *Orig yn y prynhawn*, *Lerpwl* **Morgan Owen** | Cerdd *Bannau* **Lowri Havard** | Stori Fer *Mon Petit* **Iestyn Tyne** | Cerdyn Post Creadigol *Nepal* **Anna George** | Stori Fer *Rhywbeth rhyfedd yn y dŵr* **Seran Dolma** | Cerdyn Post Creadigol *Yr Arctig* **Mari Huws** | Cerdd *Ti, hedyn bach* **Ffion Bryn** |

Ôl rifynnau cylchgrawn Y STAMP hefyd ar gael i'w lawrlwytho am ddim



# EFA LOIS ADFAIL



(TREBIWT, BAE CAERDYDD)

Rhwygaist gapleriau a gwythiennau o'i chnawd  
a phlannu pwythau peiriant drwyddi.  
Difethaist di ei natur  
er mwyn creu 'perffeithrwydd'  
ar lun a delw rhyw ddinas bell.

Anwybyddaist beth fydde orau iddi,  
a chreu llanast llwyr o'i chnawd.  
Plethwaith o ddiwylliannau oedd hi;  
bellach mae hi'n llwyd a llwm a gwag.

O ddinas bell, penderfynaist ti ei thynged.  
Gwerthaist ddarluniau o "wareiddiad" i'r teirw dur fyddai'n ei dinistrio hi,  
fricsen wrth fricsen, gartref wrth gartref, atgof wrth atgof.

Glanheiaist ei chroen â dŵr gwenwynig.

Hedodd ei hadar ymhell o'r fan hon.

## CARL RUSSELL OWEN

# PŴER POSTER

Dyma Carl Owen, Rheolwr Marchnata Frân Wen, yn cwffio cornel y poster traddodiadol.

**Ydi — mae'r ffordd 'da ni'n mynd ati i greu poster wedi newid yn aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae pawb dal i garu poster da — dydi?**

I ni yn Frân Wen mae'r poster yn crynhoi hanfod y ddrama, yn dehongli gweledigaeth y tîm artistig, yn cosi chwilfrydedd y gynulleidfa, ac yn perswadio. Y gamp yw cyfleu hyn i gyd mewn un delwedd fflat ar bapur neu sgrîn.

Y cam cynta' yw'r weledigaeth. Beth yn union mae'r cynhyrchiad am ei gyflawni? Pwy yw'r gynulleidfa?

Mae'n broses o gydweithio'n agos gyda'r tîm artistig er mwyn deall eu gweledigaeth cyn trosglwyddo brîff i'm ffrind dibynadwy a'r person pwysica' ar y daith — y dylunydd graffeg.

Rhaid adeiladu perthynas dda gyda'r dylunydd graffeg a rhoi eich holl fydd ynddo ef neu hi. Y demtasiwn naturiol yw cynnig awgrymiadau wrth gwrs...

*Beth am y ffont yma mewn maint gwahanol?*

*Beth am ychwanegu awyr las i greu awyrgylch?*

*Ydy'n bosib amlygu'r teitl?*

*Defnyddio lliwiau llachar 'falla'?*

Ond, na! Nhw yw'r arbenigwyr a dyna pam ein bod yn eu comisiynu. Nhw sy'n gwybod beth sy'n gweithio, ac yn bwysicach fyth, beth sydd ddim yn gweithio i'r lygaid.

Mae Frân Wen wedi gweithio'n agos gyda'r dylunydd graffeg Daf Owain ers rhai blynyddoedd bellach [ @Daf\_Owain ] — dwi'n ymddiried yn Daf 100% ac mae o wastad yn gallu dehongli'r weledigaeth a chreu darn o gelf trawiadol ac effeithiol.

Wrth gynnwys dylunwyr fel rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf maent yn dod i ddeall y weledigaeth a'i drosglwyddo'n ddarn o gelf sy'n ymateb i'n anghenion ni fel cwmni ac sy'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'n cynulleidfaoedd.

Ond beth sy'n gweithio? Y poster yw'r elfen fwyaf gweledol o holl weithgareddau cyfathrebu cynhyrchiad. Mae poster yn mynnu sylw ac mae creu


delwedd gref sy'n cyfathrebu profiad theatrig yn cynnig her arbennig iawn. Mae delwedd poster yn cael ei gynhyrchu fisoedd cyn cychwyn ymarferion a chyda cymaint yn gallu newid yn ystod y cyfnod allweddol hwnnw mae unrhyw benderfyniad yn gallu bod yn risg. Beth os yw'r cynhyrchiad yn mynd ar drywydd gwahanol i'r weledigaeth wreiddiol?

Ar y llaw arall, mae posteri ffilmiau yn cael eu creu wedi i'r gwaith ffilmio orffen sy'n golygu bod dylunwyr yn cael eu cyfyngu i weithio gyda deunydd stoc — mae cyfrwng theatr yn rhoi llawer mwy o ryddid i ni fod yn greadigol a dylanwadu ar y broses artistig i ryw raddau.

Er mwyn gweithredu ymgyrch farchnata effeithiol mae angen i'r poster fod yn ei le o leiaf 9 mis — a 12 mis yn ddelfrydol — cyn y perfformiad cyntaf. O ganlyniad i natur amserlen theatr, gall hyn fod yn rhy fuan o lawer i'r tîm artistig felly mae cael mewnwelediad clir i weledigaeth y cyfarwyddwr sy'n arwain y cynhyrchiad yn hanfodol.

Ydi, mae'r sgrïpt yn ddylanwad amlwg, ond yng nghyd-destun y theatr mae sicrhau fod y poster yn cyfleu gweledigaeth y cyfarwyddwr yn bwysicach na dim. Meddyliwch am ddramâu Shakespeare, er enghraifft, a'r nifer sylweddol o bosteri gwahanol sydd wedi eu cynhyrchu i gynrychioli'r un ddrama. Ystyriwch y poster ar gyfer y cynhyrchiad o Macbeth gan *National Theatre Scotland* o'i gymharu â phoster gan y *Royal Opera House* a pha mor wahanol yw'r ddau i'w gilydd, er mai dehongliad o'r un sgrïpt yw'r cynrychiadau hyn. Mae'r gyfrol *Presenting Shakespeare: 1,100 Posters From Around The World* yn arddangos nifer o arddulliau amgen ac yn drosolwg gwych o'r cyfoeth o bosteri sydd wedi eu dylunio ar gyfer cynrychiadau Shakespeare ar hyd y blynyddoedd.

Rhaid cyfaddef 'mod i'n hoff iawn o ddefnyddio pobl ar bosteri. Mae pobl yn greiddiol i ni yn Frân Wen ac felly mae'n sefyll i reswm ein bod yn gosod pobl yn amlwg yn y delweddau rydym yn eu defnyddio i gyfathrebu gyda'n cynulleidfa. Pobl sy'n creu cynhyrchiad. Pobl sy'n perfformio. Pobl sy'n gweld y



posteri. Pobl sy'n prynu'r tocyn. Mae'r poster ar gyfer tri cynhyrchiad diweddaraf Frân Wen — *Mwgsi, Wy, Chips a Nain* ac *Anweledig* — yn cynnwys pobl fel prif ffocws.

Dwi wir yn gobeithio bod y poster yn adlewyrchu naws theatrig ein cynrychiadau ac yn argyhoeddi ein cynulleidfa i fod eisiau darganfod mwy, sef yr union beth y dylai poster da ei wneud.

Ydi, mae rôl y poster yn yr hierarchaeth cyfathrebu wedi esblygu a newid dros amser, ond dwi dal yn grediniol mai'r poster yw ffenest weledol pob cynhyrchiad.

Mae'r poster yn ei ffurf draddodiadol yn deillio o'r 19eg ganrif ac roedd yn allweddol yn natblygiad typograffeg a dylunio graffeg — cychwynnodd fel fformat i hyrwyddo, hysbysebu a rhannu syniadau mewn ymgyrchoedd gwleidyddol a milwrol.

Yn yr zofed ganrif, taflunio delwedd poster ar sgriniau oedd y prif fformat hysbysebu ar gyfer y sinema — dyma cyfnod o bontio o'r hysbyseb sain

(radio) i argraffu poster i'w dosbarthu.

Yn y 1920au a 30au roedd poster yn dilyn arddull darlunio traddodiadol ac roedd y typograffeg yn gryf a bywiog — meddyliwch am ffilm King Kong (1933), er enghraifft. Wedyn yn y 40au, wrth i actorion ddod yn fwy adnabyddus gwelwyd nifer o'r poster yn cynnwys darluniadau o'r 'sêr' (Casablanca, 1942).

Yn y 70au, dechreuodd artistiaid arbrofi gyda ffotograffau ac yn ystod y ddegawd hon y daeth ffurfiau gwahanol o farchnata fel pamffledi a hysbysebion teledu i'r amlwg. Roedd dylunwyr erbyn hyn angen datblygu delweddau oedd yn gweithio ar nifer o gyfryngau amrywiol yn ogystal â phosteri.

Ers y 1990au, o ganlyniad i dechnoleg dylunio digidol newydd mae ffiniau creadigrwydd wedi eu chwalu. Mae gan ddylunwyr ryddid i greu bron iawn unrhyw beth.

Roedd poster traddodiadol ar gyfer cyfrwng ffilm yn adlewyrchu thema a naratif ac yn arf hyrwyddo hanfodol gydag effeithiau gafaelgar yn aml iawn —

ac mae'r un stori yn wir heddiw. Dyna'r rheswm fod yr hen boster dibynadwy wedi treiddio mor effeithiol i gyfryngau digidol cyfoes.

Ystyriwch y ffordd mae Amazon a Netflix yn defnyddio 'thumbnails' bach o bosteri i hyrwyddo cynnyrch teledu a ffilm. Mae'r cwmnïau digidol yma yn gwneud hyn am reswm ac yn gwybod bod y poster yn cynyddu gwybodaeth, yn newid agwedd ac ymddygiad, a bod hynny wedi ei brofi'n wyddonol.

Does na'm dadlau bod angen i'r poster ddatblygu i fod yn fwy hyblyg a symudol ond dydi hynny ddim yn mynd i ddigwydd yn fuan iawn.

Ond, ydi pawb dal i garu poster? Mi ydwi, beth bynnag.

*Bydd yr holl luniau sydd gyda'r ysgrif hon mewn lliw yn y rhifyn ar-lein - Gol.*



“Rhaid cyfaddef 'mod i'n hoff iawn o ddefnyddio pobl ar bosteri ... Pobl sy'n creu cynhyrchiad. Pobl sy'n perfformio. Pobl sy'n gweld y posteri. Pobl sy'n prynu'r tocyn ...”

WYN MASON

## BLE MAE DRAMÂU ÔL-DREFEDIGAETHOL CYMRU?

Yn gyntaf, beth yn union a olygir wrth y term ôl-drefedigaethol? Yn y bôn, term llenyddol ydyw, sy'n disgrifio gwaith sy'n feirniadol o imperialaeth. Cafodd y math hwn o ysgrifennu ei ddisgrifio'n gryno gan y nofelydd Indiaidd, Salman Rushdie, fel pobol yr Ymerodraeth yn ysgrifennu nôl at y canol. Nid yw'r rhagddodiad 'ôl' yn golygu bod y term ond yn berthnasol i wledydd sydd eisoes wedi ennill annibyniaeth. Yn hytrach, mae'n berthnasol i unrhyw sefyllfa drefedigaethol.

Beth felly a olygir wrth ddrama ôl-drefedigaethol? Yn eu cyfrol *Post-colonial Drama: Theory, Practice, Politics* ceisiodd Helen Gilbert a Joanne Tompkins ddiffinio perfformiadau ôl-drefedigaethol trwy eu gosod mewn pedwar categori:

- darnau sy'n ymateb i brofiad imperialaeth, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
- darnau i'w perfformio er mwyn sicrhau parhad neu adfywiad y cymunedau sydd wedi eu coloneiddio;
- darnau gydag ymwybyddiaeth o, ac weithiau'n ymgorffori, ffurfiau cyn-gyswllt (h.y. cyn i'r wlad gael ei gwladychu);
- darnau sy'n cwestiynu'r hegemoni sy'n tanlinellu cynrychiolaeth imperialaidd.

Fel y gwelwch, mae'r categorïau yma'n berthnasol i Gymru, ond serch hynny nid oes gennym draddodiad cryf o ysgrifennu dramâu ôl-drefedigaethol.

Fe fyddai rhai pobol yn dadlau bod pob darn sy'n cael ei berfformio yn Gymraeg, yn ei hanfod yn wleidyddol, gan ei fod yn helpu parhad iaith leiafrifol yn wyneb ymdrechion San Steffan i Seisnigeiddio'r Deyrnas Unedig (sy'n cydfynd â'r ail gategori uchod). Ond, o fewn cyd-destun ôl-drefedigaethol, ni chredaf fod safbwynt o'r fath yn arbennig o ddefnyddiol, gan ei fod yn rhy amwys. Mae galw am ddadansoddiad mwy craff os am godi ymwybyddiaeth benodol.

Mae'n weddol hawdd meddwl am ddramâu sy'n huanu o wledydd Celtaidd eraill sy'n atebol i'r categorïau uchod. Er

enghraifft *Translations* gan Brian Friel, sy'n dipyn o glasu'r modern Gwyddelig erbyn hyn. Drama naturiolaid yw hi, wedi'i gosod yn Nonegal y 19eg ganrif, lle adeilada'r gwrthdaro o amgylch y broses o Seisnigeiddio enwau llefydd Gwyddeleg ar gyfer map 'Ordnance Survey'. Enghraifft adnabyddus ôl-drefedigaethol o'r Alban fyddai *The Cheviot, the Stag, and the Black Black Oil* gan John McGrath. Drama Frechtaidd yw hon sy'n olrhain hanes trefedigaethol yr Alban o Gliriadau'r Ucheldiroedd i dwf y diwydiant olew.

Yn nhraddodiad theatr gorfforol Cymreig mae gennym hanes arbennig o greu sioeau ôl-drefedigaethol - diolch yn bennaf i'r cwmni arloesol, Brith Gof, ac i berfformwyr fel Eddie Ladd sydd wedi parhau i greu darnau gwleidyddol cyffelyb, fel *Dawns Ysbrydion*. Serch hynny, anodd yw ffeindio enghreifftiau mor amlwg yn y traddodiad o ysgrifennu dramâu testun.

Un eithriad amlwg yw gwaith y dramodydd Ian Rowlands, sydd wedi bod yn ysgrifennu dramâu ôl-drefedigaethol yn gyson ers degawdau. *Marriage of Convenience* yw un o'i ddramâu amlycaf, sef monodrama am ddyn ifanc o'r Cymoedd sy'n mynychu picnic gweriniaethol ar ben mynydd tra bod gweddill ei deulu ar y stryd yn dathlu priodas frenhinol Brydeinig. Y llynedd ym Mhrifysgol Abertawe cafwyd cyflwyniad gan Rowlands am ei waith, lle cyfaddefodd ei fod yn teimlo'n unig yng Nghymru fel dramodydd ôl-drefedigaethol - nid o fewn cyd-destun rhyngwladol, sylwer, ond yng Nghymru.

Mae pob sefyllfa ôl-drefedigaethol wrth gwrs yn unigryw, a sefyllfa Cymru yn arbennig o gymhleth: gwlad gafodd ei gwladychu (gwladfa gyntaf Lloegr), ond gwlad hefyd sydd wedi bod yn rhan annatod o'r Ymerodraeth Brydeinig, ac felly'n rhannol gyfrifol am drechu, rheoli ac ecsbloetio pobloedd ar draws y byd. Os yw'r honiad yn wir - bod dramodwyr Cymreig, yn gyffredinol, yn gyndyn o ysgrifennu dramâu ôl-drefedigaethol (ac o bosib yn brin o gwmnïau i'w cynhyrchu, theatrau i'w llwyfannu, a chynulleidfaoedd i'w mynychu) - onid yw hyn yn arwydd o'r graddau yr ydym ni wedi ein gwladychu fel cenedl?

Does dim amheuaeth fod

ysgrifennu drama lawn o safon yn her. Gellid dadlau fod ysgrifennu drama lawn wleidyddol o safon yn fwy o her fyth gan fod gofyn meistrolï'r ffurf ddidactig - sef drama sy'n gosod pwyslais ar syniadau cyn emosiwn. Mae meistrolaeth o'r fath yn golygu diddanu, nid pregethu. Ymhellach, wrth wynebu'r her o ysgrifennu'n wleidyddol, hawdd yw dychmygu sefyllfa lle y byddai dramodwyr Cymreig yn fwy tebyg o ddewis straeon sydd â themâu cyffredinol, yn hytrach na phenderfynu mynd i'r afael â thema ôl-drefedigaethol Cymreig. Hynny yw, bod dramodwyr yn fwy tebyg o lynu at themâu sydd eisoes yn gyfarwydd o fewn cyd-destun ysgrifennu newydd Prydeinig, megis themâu sosialaidd neu ffeministaidd er enghraifft. Wedi'r cyfan, wrth greu gwaith sy'n cwestiynu Prydeindod, mae yna beryg y byddai'r gwaith yn ddadleuol, ac efallai fod yna dueddiad i ddramodwyr a chynhyrchwyr hunan sensora. Ar ben hyn, nid yw'r sector yn or-gyfarwydd â dramâu gwleidyddol o'r fath. Rydym ni'n llawer mwy cyfarwydd gyda dramâu Sarah Kane, Simon Stephens a Caryl Churchill, na gwaith Victoria Nalani Kneubuhl, Derek Walcott neu Briar Grace-Smith.

Am ba bynnag reswm, fel y saif pethau, nid oes gennym ganon ystyrlon o ddramâu ôl-drefedigaethol Cymreig i'n hysbrydoli. Rhaid i ni felly eu hysgrifennu nhw ein hunain! Dyna, wedi'r cwbl, yw hanfod y broses o ddad-goloneiddio: darganfod yr hyder i ail-ddychmygu'r hunan.

Wrth wynebu cyfnod gwleidyddol cythryblus — llywodraeth San Steffan yn ceisio cipio pwerau datganoli yn ôl i'r canol, Catalwnia yn brwydro dros annibyniaeth, ac ati — gobeithio cawn ddeffroad o ddramâu ôl-drefedigaethol Cymreig.

# CARTREFI CYMRU 2.0

## THEATRAU



## MARI ELEN

**'Harlech. A boutique coastal town in Meirionethshire. Lots of lovely cafes, You MUST try the homemade ice cream!'**

Harlech. Lle cefais fy ngeni, lle cefais fy magu. Lle es i i'r ysgol. Lle nes i neud ffrindiau. Lle nes i gystadlu mewn eisteddfodau. Lle nes i gynnal eisteddfodau. Lle nes i berfformio ar lwyfan theatr am y tro cyntaf. Y lle ges i nghusan cyntaf. Y lle nes i dorri nghalon gyntaf. Y lle nes i ddod i ddianc ar ôl toriad calon. Meddwi yn y twyni tywod, gigs yn y castell a loc in yn y dafarn leol. Smocio ar y ffor adra, a brwsio dannedd rhag i mam glwad yr ogla.

Harlech. Fy hoff le yn y byd.

Ond mae Harlech wedi newid ... Mae Harech wedi mynd o fod yn le hwyl i gael dy fagu i rhywle sydd mor brydferth mae pobl yn dod i fyw yma cyn iddynt farw. Mae hi'n dref sydd bellach hefo dim i gynnig i'w trigolion ifanc. Yn lle hynny,

mae'n ei chlodfori ei hun ar y dewis o gacennau a hufen ia sydd ar gael.

Yn 2003, yn 10 oed ac yn destun bwlio, ges i'r cyfle i berfformio ar lwyfan theatr go iawn fel prif ran sioe Dolig yr ysgol. Babwshka oeddwn i. Babwshka oedd yn galaru am blentyn coll. Heddiw, tra dwi'n sgwennu hwn, dwi'n bell iawn o fod y ferch bach ansicr 'na. Heddiw dwi'n ddynes hyderus yn ei hun a hapus, ond, fel Babwshka, dwi'n galaru am rhywbeth coll. Dwi'n galaru am adeilad oedd yn ran allweddol o'n magwraeth.

I lot o bobl sydd yn darllen hwn, adeilad oedd Theatr Arudwy — y theatr 'na hefo get-in hunllefus, patrwm glas afiach yn y toiledau a parcio oedd yn ffaff. I fi, oedd o'n le hudolus, lle llawn celf a phobl diddorol. Lle ges i lot o brofiadau cynta' megis: Lle cefais fy nghyflwyno i'r SRG wrth i mi gael gweld Sibrydion, Llan Clan, Frizbee a Gruff Rhys! Lle ges i weld sioeau byw am y tro cyntaf, cynyrchiadau

**Theatr Arudwy, HARLECH**

Llun: **Arthur C. Harris**

mawr gan Theatr Gen, Bara Caws, Frân Wen a gymaint mwy. Lle o'n i'n mynd hefo'n ffrindiau ar Sadyrnau gwlyb i wyllo ffilm oedd allan ar DVDs ond bod y profiad yn sbesial i ni. Lle nes i dreulio lot o amser mewn gwahanol weithdai yn gneud ffrindiau newydd sydd erbyn hyn yn gweithio o fewn yr un maes a fi.

Ond ydw i'n synnu bod hyn wedi digwydd yn Harlech? Nac ydw siŵr, mae o'n digwydd yn Y Bala a Phwllheli — dwi'n sicr ei fod o'n digwydd mewn sawl tref wledig (brydferth) o gwmpas y wlad. Da ni'n byw mewn oes lle mae pres yn bopeth, a tydi hyd yn oed ein cynghorau lleol yn methu cystadlu hefo'r bobl eithriadol o gyfoethog sydd yn dod i adeiladu eu tai haf grand designs. Mae ysgolion bach a chlybiau ieuenticid yn cau o flaen ei trwynau ni — pa obaith sydd yna i'r celfyddydau?



Theatr Gwynedd, BANGOR

## EMYR MORRIS-JONES

**Dwi'n cofio'r sment yn mynd lawr i ddechrau, a'r polion mawr 'na i fyny,** ac isio mynd yna, torri 'mol isio mynd, ac isio gweithio yna er mod i ddim di meddwl am waith ne yrfa yn y theatr, na 'di weld o fel rbath oni'n fwynhau. Rhyw bymthag neu undeg chwech oni.

A wedyn nes i gychwyn wrth weithio am ddim, dod i fewn gyda'r nos. Holi 'da chisio rhywun i fewn yn fama' lly. Rhywun i neud panad a ballu yn yr egwyl, petha felna. Ond jesd niwsans oni, hongian o gwmpas. A wedyn os odd rhywun yn sâl ne ddim ar ga'l— 'o duw lle mae o di mynd, lle ma'r boi na?' odd hi wedyn.

Dyna sut nes i ddechra yn Theatr Gwynedd a dechra gweithio go iawn efo *Under Milk Wood* yn saithdeg pedwar neu saithdeg pump.

Oni wrth fy modd efo fo, y delwedda odd o'n greu yn dy ben di pan odda chdi jesd yn gorwadd yna ar ben dy hun yn darllan. Hwnna odd y llyfr cynta i fi ddarllan odd yn farddonol mewn ffordd, Cymraeg ne Susnag. Pan ges i gynnig gweithio ar gynhyrchiad oni'n fodlon neud o am ddim a wedyn pan odd rhywun yn deud 'gei di wythbunt yr wsos am godi gauze ar y llwyfan unwaith yn dechra a wedyn ella dod a fo i lawr erbyn y noson wedyn', oni wrth fy modd.

Nes i hydnod gal cyfnod fel projectionist. O fana nes i ddechrau diddordab mewn petha fel 'world cinema' achos oherwydd bo fi'n gweithio yna oni'n jesd ista a gwranddo ar y petha 'ma. Oddna 'all-night cinema' yna ac odd hwnna'n grêt, o tua hannar nos dan tua chwech yn bora. Rhyw betha 'horror' i gyd a cult ffilms a ballu, a'r lle rhan fwya'r amsar yn llawn ond

bod lot di bod allan yn yfad so odd rhaid i ni gal bownsars.

Dwi'm yn meddwl fod gen i 'rose tinted glasses', ond oddo'i gyd yn gweithio. Yr unig le rwan dwi'n teimlo'n gyfforddus go iawn i sbio ar w bath ydi Theatr Felinfach. Theatr Gwynedd o'dd y llall. Mi oedd y llwyfan yn eitha isal, ac odd y seti ar rake a'r lle i gyd jesd y maint iawn, doddo'm rhy fawr na rhy fach — odda chdi'n gweld motsh lle odda chdi'n ista na pwy odd o dy flaen di, a'r bocs technegol ydi'r unig un fedrai feddwl am dano fo lle odd pobol technegol yn hapus i weithio sioe ynddo fo. Ac odd pawb yn mwynhau mynd yna ac yn edrach ymlaen i fynd yna ar daith.

Pan oni'n dechra, i fi oddo fel lle magic achos bod y bobol ma i gyd jesd yn gneud petha smal, ffantasi dio'i gyd de a'r adag honno oddo fel teulu. Ti'n gw bod pan ti'n cal y teimlad na fod pobol yn mwynhau dod i gwaith? Hwnna. Oddo'n braf a dio'm yn digwydd yn amal nacdi. Ond nes i ddechrau gneud mwy efo'r teithiau am mod i isio rhedag i ffwrdd efo'r syrcas a wedyn mynd i weithio efo Bara Caws a gadal o achos hynny. Ond ni nath y sioe ola yno, *Llyfr Mawr y Plant*, a ges i weld y cylch na'n cau.

**\*trawsysgrifwyd y darn uchod gan Llŷr Titus wedi sgwrs ar lafar hefo Emyr - Gol.**

## Beth yw **CARTREFI CYMRU 2.0?**

Ym 1896 cyhoeddwyd un o gyfrolau teithio mwyaf dylanwadol yr iaith Gymraeg, sef *Cartrefi Cymru*. Cyfrol o ysgrifau taith gan O.M. Edwards wrth iddo grwydro rhai o dai a chartrefi pwysig Cymru oedd hi, o Ddolwar Fechan i'r Lasynys. Ond nid disgrifio'r hyn a welai wrth siwrnea yn unig oedd O.M., eithr creu Cymru o'r deunyddiau crai a ganfyddodd ar ei amryfal deithiau. Cymru wledig, gapelgar o werinwyr diwylliedig oedd hi, antithesis i'r bröydd diwydiannol â'u tân a'u brwmstan.

Dros ganrif yn ddiweddarach, dyma ni yn mynd ati i greu arolwg arall o Gymru, gan unioni'r cam a wnaed i'r bröydd diwydiannol a dinesig gan O.M. Ym mhob rhifyn, byddwn yn gyrru awdur neu lenor i fynd i grwydro dinasoedd a bröydd diwydiannol Cymru i weld be welan nhw, ac i adrodd yn ôl, mewn arbrawf seico-ddaearyddol fawr.

Oes yna leoliad yn eich meddwl chi yr ydych chi'n tybio ei fod wedi cael cam yng ngwaith y gorffennol, ac yr hoffech ei weld yn cael sylw yn y golofn yma yn y dyfodol? Os oes, cysylltwch â'r golygyddion!

ANNES ELWY  
YMARFERION  
DIWRNOD CYNTAF

Ydw i'n edrych yn neis?

Pa siwmpwr sy'n mynd i roi argraff well?

Gobeithio fydda i'n hoffi'r bachgen sy'n chwarae Jack.

Gobeithio bod o'n lân.

Gobeithio bod ei anadl o ddim yn drewi.

Falle na'i syrthio mewn cariad!

Ddylwn i fynd â chinio?

Ddylwn i fynd â thrainers?

Ddylwn i gyrraedd bum munud yn gynnar neu bum munud yn hwyr?

Dwi'n gynnar. Ddylwn i fynd mewn?

Ie fi ydi'r ola' i gyrraedd er mod i'n gynnar?

Ydw i'n nabod unrhyw un fan hyn?

Efo pwy ddylwn i siarad?

Ddylwn i jyst esgus tecstio'n lle?

Pa decsts dwi di anwybyddu'n ddiweddar?

Ydi o'n amlwg mod i jyst yn defnyddio ffôn i osgoi siarad?

Ydi pawb yn meddwl mod i'n antisocial?

Pam bod neb yn siarad efo fi?

...Oh god, be oedd eu henwau nhw?

Na'i jyst eistedd.

Lle ddylwn i eistedd?

Mae'r ferch yna 'di neud nodiadau, shit.

O na, gorfod cyflwyno ein hunain efo ffaith diddorol.

Sgen i ddim ffeithiau diddorol!

"Helo. Dwi'n chwarae rhan Norah, a dwi'n gallu rhoi fy nghoesau rownd fy ngwddw"

... oedd hwnna'n ddewis shit?

Ddylwn i ddarlenn mewn acen Americanaidd neu ei adael o tan rywbyrd arall?

Ma un o'r merched yn, ond mae'i hacen hi'n uffernol.

Mae'i llais hi wir yn neis though.

Ma' hi mor bert.

Dwi'm yn gallu stopio syllu.

Oh bugger it, man y man i fi drio.

Ydw i mor wael â hi?

Pam bod y dyn yna'n commitio gymaint?

Pam bod o'n crio mewn read through?!

O god, gobeithio na'i grio!

Ie fi ydi'r gwaetha?

Ydi'r cyfarwyddwr yn difaru?

Pam nath o roi'r swydd i fi?

O'n i'n well yn y clyweliad?

Pryd mae fy ngolygfa nesa i?

Ydi hi'n un dda?

Ie yn hwnna dwi fod i grio?

Ydi o efo Jack?

Shit, sut dwi'n deud hwnna?

Embarrassing.

'Seepage' oedd o. Fel, condom yn gollwng..

Nes i ddeud 'see-page', fel 'gweler tudalen...'

Tybed be neith pawb amser cinio?

Gobeithio neith rhywun eistedd efo fi.

Gobeithio na'i neud ffrindiau.

Gobeithio fydda i'n dda yn hwn.

Gobeithio neith y Guardian ddod.

Gobeithio gewn ni 5\*.

Gobeithio gewn ni transfer!

Gobeithio fydd mam a dad yn meddwl mod i'n dda.

Gobeithio gai lot o flodau ar press night.

Gobeithio bydd fy ngwisgoedd i'n cool.

Gobeithio fydda i'n edrych yn neis.

Gobeithio fydd dim rhaid chwarae gemau pnawn 'ma.

Gobeithio fydd dim rhaid i ni actio ar ein traed pnawn 'ma!

Gobeithio eiff pawb i'r dafarn.

Ydw i'n drewi?

Ie fy nillad i sy'n gwyntio'n damp?

Tybed ai fo fydd fy nghariad nesa i?

Tybed a ydi o'n chwarae gitâr?

Falle bod ganddo fo gariad.

... Ond falle bod o isio gorffen efo hi!

Ydw i'n meddwl gormod am hwn?

Oh my god, dwi'n LLWGU.

EDDIE LADD

## HOLLYWOOD CARTREF

Does yna ddim colofn LABORDY yn y rhifyn hwn, ond mae 'na gyfle i chi gamu i'r labordy eich hunain efo cyfraniad Eddie Ladd. Dyma olygfeydd mewn pedair ffilm y gallwch eu hail-greu getre / adref ...

## They Shoot Horses, Don't They? SYDNEY POLLACK, 1969

Ffilm am y dirwasgiad yn America yn ystod y 30au. Daw cymeriadau'r ffilm at ei gilydd i gystadlu mewn marathon ddawns yn y gobaith o ennill gwobr sylweddol a newid eu byd.

## YR OLYGFA

- ⇒ Mae'r marathon wedi bod yn mynd yn ei blaen ers sawl wythnos
- ⇒ Saif Gloria wrth flwch sbwriel yn y neuadd lle mae'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal
- ⇒ Cymer lond ceg o'i brechdan
- ⇒ Metha â'i fwyta, gan ei bod wedi diflasu ar ei sefyllfa
- ⇒ Sylla i mewn i'r blwch a gollwng gweddill y frechdan iddo

EICH GOLYGFA CHI

- Chi yw:** Gloria / Jane Fonda
- I'w baratoi:** brechdan\*
- Lleoliad:** eich cegin
- Shot:** camera i'r chwith ohonoch, *long shot*
- Gweithred:** safwch wrth y blwch sbwriel cymerwch antsh o'r frechdan syllwch i waelod y blwch gollyngwch y frechdan iddo
- Nodiadau:** gadewch lonydd i'r camera syllu i'ch wyneb gollyngwch y frechdan heb liwio'r weithred

\*os nad ydych am wastraffu brechdan, rhowch glingffilm amdani a'i thynnu o'r bin er mwyn ei bwyta maes o law

## Milwr Bychan KARL FRANCIS, 1986

Ffilm am wrthdynnu rhwng hunaniaeth Brydeinig, Cymreig a Gwyddelig, yn ystod y *Troubles* yng ngogledd yr Iwerddon.

## YR OLYGFA

- ⇒ Mae Wil Thomas yn filwr o Gymro sydd yn gwasanaethu ym Melffast
- ⇒ Saethodd rhywun pan ar ddyletswydd a chael ei garcharu gan awdurdodau'r fyddin
- ⇒ Caiff ei wneud yn fwch dihangol a'i gamdrin
- ⇒ Gweinir brechwast iddo yn ei gell
- ⇒ Yn ei ddioddefaint, mae'n codi'r uwd o'r fowlen ac yn ei daenu dros ei wyneb

EICH GOLYGFA CHI

- Chi yw:** Wil Thomas / Richard Lynch
- I'w baratoi:** uwd\*
- Lleoliad:** eich cegin, yn ishte o flaen y ford
- Shot:** camera o'ch blaen, *mid shot*
- Gweithred:** dychmygwch fod milwr yn sefyll tu ôl i'r camera syllwch arno am hir rhowch ddwy law yn y fowlen uwd codwch yr uwd at eich wyneb a'i daenu arno rhowch eich dwylo yn ôl ar y ford, yn naturiol cadwch syllu

\*os nad ydych am wastraffu uwd, gallwch grafu'r hyn sydd yn weddill yn y fowlen neu'r carton at ei gilydd



## Blade Runner RIDLEY SCOTT, 1982

Ffilm am Los Angeles ddystopaidd y dyfodol lle mae helwr *replicants* (peiriannau dynol yr olwg) yn ceisio diddymu nifer ohonynt sydd ar ffo.

### YR OLYGFA

- ⇒ Mae Decker yn heliwr *replicants*
- ⇒ Ymosodwyd arno yn yr olygfa flaenorol
- ⇒ Fe'i achubwyd gan Rachel, PA yn y Tyrell Corporation, cwmni sy'n gleient iddo
- ⇒ Ânt y ddau i'w fflat ef
- ⇒ Wrth sgwrsio mae Rachel yn datgelu ei bod hithau yn *replicant*
- ⇒ A Decker i'r stafell molchyd a thynnu ei siaced, ei dei a'i gryd
- ⇒ Mae'n rhedeg dŵr ac yn glanhau'r anafiadau i'w geg
- ⇒ Daw Rachel draw a'i holi a fyddai'n dod ar ei hôl pe bai hi'n dianc

### EICH GOLYGFA CHI

- Chi yw:** Decker / Harrison Ford
- I'w baratoi:** gwaed ffug  
200ml o ddŵr  
3 llwy bwdin o bowdwr coco  
3 llwy bwdin o liw bwyd coch  
trowch y cyfan at ei gilydd
- Lleoliad:** eich stafell molchyd
- Shot:** camera i'r chwith ohonoch, *long shot*  
camera yn agos atoch, *close up*
- Gweithred:** rhowch y gwaed ffug yn eich ceg
- long shot*  
tynnwch ddilledyn  
rhedwch ddŵr  
plygwch dros y sinc  
codwch y dŵr i'ch wyneb ddwywaith  
rhowch eich pen yn eich dwylo a gorffwys ar y sinc
- close up*  
cydiwch yn eich gên â'ch llaw chwith  
agorwch eich ceg a gadel i'r gwaed lifo ohono  
rhowch fys ynddo a themlo cig y dannedd blaen,  
o'r dde i'r chwith  
rhowch eich pen o dan y dŵr

Cofiwch rannu cynhyrchiadau  
epig eich Hollywood Cartref!

@ystampus

## The Wall ALAN PARKER, 1982

Ffilm am seren roc, Pink, sydd yn dioddef o salwch meddwl am sawl rheswm, ac mae ei yrfa ond yn porthi ei unigrwydd.

### YR OLYGFA

- ⇒ Mae Pink ar daith yn America
- ⇒ Daw i wybod fod ei wraig yn cael affêr
- ⇒ Ar ôl gig mae'n dod â grŵp yn ôl i'w stafell yn y gwesty
- ⇒ Mae'n cael pwl o'r felan wrth wyllo *Dambusters* ar y teledu
- ⇒ Tynna'r stafell yn rhacs o'i gwmpas
- ⇒ Wedi hynny, ceisia ail-drefnu'r llanast

### EICH GOLYGFA CHI

- Chi yw:** Pink / Bob Geldof
- I'w baratoi:** fersiwn meicro: offer i'w sarnu o gwodyn neu fag neu sach gefn
- Lleoliad:** unrhyw stafell
- Shot:** amrywiol - o uwchben, proffeil, *close up*, llydan ayyb
- Gweithred:** arllwyswch gynnwys y sach / bag i'r llawr ewch at y llawr ac ail-drefnwch eich eiddo gallwch ddethol yn ôl maint, math, ansawdd, lliw ayyb

LOIS LLYWELYN

## MONOLOG

MEWN YMATEB I WAITH TELERI LEA

*Mae LOWRI yn eistedd ar ei gwely mewn ystafell fodern, fechan, sy'n finimalaidd. Mae'r waliau yn wyn a phlaen ac mae'r llawr yn bren. Mae lamp oren gron ar y wal a llun golygfa o arfordir Cymru. Uwchben y gwely mae calon lechen yn dweud 'Adra'. Ar y cwpwrdd wrth y gwely mae ganddi fwg sy'n dweud 'Panad'. Trwy ffenestr fechan y cwbl sy'n y golwg yw bloc o goncrit o adeilad cyfagos. Mae'n ganol dydd. Mae LOWRI yn myfyrio.*

Weithia pan 'dw i'n deffro yn y bora, wel, ganol dydd, 'dw i'n ffeindio'n hun yn meddwl am y cyrtans hongian na ti'n gal yn lle Chinese neu siop chips. 'Sgen i'm llawr o 'im byd arall i'w 'neud, rili. Jysd meddwl am y cyrtans 'na sy jesd fatha rhesi o fwclis hir yn danglo reit at y llawr. Ma' nhw reit tacky ond 'dw i'n licio nhw. Weithia ma' 'na amball i strand yn dal ar ysgwydd y person sy wrth y til wrth iddyn nhw ddod trwodd o'r gegin efo dy ordor di, a'r boscys ffoil mewn pentwr yn y bag plastic gwyn. O'r blaen o'n i'n trio craffu ar y ticad bach oedd wedi'i ddal yn sownd at y bag gan dafod bach o dâp coch, a trio gweld be o'dd rhif yr ordor. O'n i'n keen. 'Dw i bach yn fwy amyneddgar rwan, sgrolio trw' facebook ac instagram a ballu i witsiad. Ma' siwr bod gen i'm ffôn adag yna, neu dim iPhone o leia'. Anodd dychmygu! O'dd 'na betha' eraill i dynnu'n sylw i yr adag honno ma' siwr, petha bach syml.

Pan ti'n saith oed yn gafal yn llaw dy fam, ti'n cal dy ddallu, dy hypnoteiddio bron, gan law y gath fach goch ac aur yn mynd nôl ac ymlaen, nôl ac ymlaen, a ti'n codi llaw yn ôl wrth witiad i'r person tu ôl i'r til weiddi *ffifty seven*, a chditha 'di bod yn ailadrodd *ffiff-ti sef-yn* yn dy ben am ddeg munud rhag ofn i chdi anghofio. Wedyn pan ti'n ddeuddeg, yn nôl têt-awê efo dy ffrindia ar gyfer *sleepover*, y cyrtan sy'n tynnu dy sylw di. Weithia o'n i'n trio cyfri'r *beads*, a meddwl be fasa'n digwydd os faswn i'n rhoi siswrn trwy'r llinyn sy'n dal y *beads* at ei gilydd. Mi fasa'r peli bach yn rowlio a bownsio ar y llawr efo swn pitian patian. Pan o'dd rhywun yn cerdded trwy'r cyrtan, o'n i'n licio gwrandar ar y – do's 'na'm gair Cymraeg call i'w ddisgrifio fo – y *shimmer* 'na rhwng y *beads*, fatha'r

*sound effects* ar raglenni plant pan ma' rhywun yn mynd o'r byd yma i ryw fyd paralel, hudolus, sydd 'mond yn bodoli y tu ôl i ryw gyrtan mwclis aur. O'n i'n arfar trio dychmygu be o'dd tu ôl i'r cyrtan, dychmygu cegin grand efo pob math o fwyd, ogle sbeisys, sôs, a hisian y badell ffrïo, tyrau o blatiau a boscys ffoil têt-awê yn sgleinio dan y golau.

Pan o'n i'n blwyddyn deg 'nes i ga'l job yna ar wicend, jysd *potwash* a ballu i ddechra, wedyn til ac atab ffôn, cymyd ordors ar ôl chydig wsnosa. Oddo'n afiach. 'Nath hi gymyd dipyn i fi fedru byta *Chinese* eto. 'Dach chi'm isio gwobod be sy'n mynd mewn i'ch *special chop suey* chi. *Not-so-special chop suey* o'n i'n ei alw fo. Mi ges i siom go iawn y tro cynta i mi gerddad mewn i'r gegin 'na. Ella 'mod i 'di bod yn disgwyl gormod pan o'n i'n ddeuddeg oed, ella 'mod i'n wirion i dychmygu bod 'na ryw fath o Narnia trwy'r cyrtan mwclis. 'Dwnim. Ond neshi sticio ato fo am flwyddyn chwara teg. Tan TGAU. Oddo'n bres bach del er bofi'n dod adra yn drewi o chwys a saim. Na'th bil letrig tÿ ni godi adag yna, 'chos bod rhaid i fi olchi ngwallt deirgwaith ar ôl ei gilydd i ga'l yr ogle allan.

'Sw'n i'm yn gallu fforddio hynna 'wan, ha! 'Dw i'm rili'n gallu fforddio lot mwy na be 'dw i rili angen. Weithia 'dw i'n difaru gwario ar betha' stiwpid a di-angen flynyddoedd yn ôl. Fatha pan neshi brynu GHDs newydd jysd am bod na rei lliw *mint* newydd ddod allan, ac o'dd y lleill o'dd gen i'n gweithio'n iawn eniwe. Ma' nhw dal yn gweithio'n iawn rwan. Duw, o'n i isio nhw ar y pryd do'n? Anodd peidio difaru pan 'sgen ti'm pres 'fyd... Ond dydw i ddim yn *dlawd*, ddo. Na, jysd teimlo bechod drosta' fi fy hun dwi. Bach yn sensitif. 'Dw i'n gw'bod dylwn i'm cwyno, 'chos dwi'm *acshyli* yn dlawd. Mae o jysd bach yn *gutting gorô* checio dy falans banc di cyn pwyso '*place order*' ar ASOS bob tro. Ond dwi'n meddwl bod 'na lot o bobol yn yr un cwch fan hyn.

O'n i'n gwobod bo chdi'n ryw fath o *seinio fyny* i beidio ca'l lot o bres os ti'n symud yma, ond 'dw i'm yn siwr os o'n i'n disgwl hyn, rili. 'Dw i'n byw yn ddigon cyfforddus, yndw. Ond fedra' i'm helpu teimlo bod bob dim jesd mor *fach*. Ti'm

yn ca'l chwatar gwerth dy bres. Ti'n byw mewn *box room* sy'n llawn dodrefn simsan *IKEA* mewn bloc o fflatia sy'n gartra' i fwy o bobol 'na sy'n byw yn dy bentra' di adra. Ond ma' pawb yn 'neud o, tydi? Dyna ti fod i 'neud, de? Symud i ffwrdd, gweld y byd. Dyna o'n i'n feddwl pan neshi symud yma gynta'. 'Dw i'n siwr o licio fo, achos ma pawb 'dw i'n nabod yn licio fo. Y cam naturiol, *dream big* a mynd yn bell. *Dream big*, ia, ond do'n i'm yn gw'bod bo' rhaid i chdi dalu trwy dy drwyn am *box room* sy'n sbio allan ar floc o goncrit budr i 'neud hynna. O'n i'n disgwl gormod ma' siwr, fathag o'n i yn y lle *Chinese* s'lawar dydd.

Y peth 'di, ti'n gweld y tyrau mawr 'ma, ti'n sbio arnyn nhw o bell a meddwl *waw*, dwi isio bod yn fanna. Ma'r bobol sy 'di bod yn byw a gweithio yma'n ddigon hir yn eu gweld nhw fatha graff bar o *Excel*, ond 'dw i'n dal i'w gweld nhw fatha peips organ yn Capal. Ta waeth, ti jesd isio bod yna. Yn ei chanol hi, twtsiad y waliau. Ma' nhw'n edrach yn daclus, llyfn a syth fatha pren mesur, a ti isio ca'l swyddfa efo waliau gwydr ar lawr uchel, sy'n g'neud i chdi deimlo fatha bo' gen ti ddesg ar ben cwmwl.

Ond ti'n cyrraedd yna, a sbio i fyny o'r stryd ac ma'r concrit yn arw ar dy fysedd di. Fedri di'm hyd'nod gweld y top, a'r oll ti'n medru 'i weld ydi rhesi o *booths* bach ac ma' bob person sy wrth y desgia' cul yn edrach yn *stressed* a *bored* ar yr un pryd. Ti'm yn sylwi hynna tan ti'n sbio'n agos. Ma'r tyrau fatha machlud mewn ffordd, achos tydyn nhw ond yn edrych yn dda os ti'n sbio o bell. Yn am-lwg, tydw i erioed wedi sbio ar y machlud yn *agos* achos 'sw'n i'n cal fy nallu neu fy nghwcio'n fyw, ond dwi'n siwr na fysa fo cweit run peth â sbio arno fo o bell. Ma' raid i chdi weld y lliwia'n toddi ar hyd yr awyr.

Diom otch, 'dw i'm isio job fel'na 'im mwy eniwe. Ond alla i'm bod yn *waitress* am byth. Ma' pawb yn deud bod y jobsys da i gyd yn Llundain, ond 'dyn nhw'm yn d'eud bod y *grads* da i gyd yna 'fyd. Weithia ti'n meddwl bod 'na'm pwynt trio cystadlu yn eu herbryn nhw. 'Dw i'n meddwl hynna'n fwy aml nag y dylwn i. Pacio 'mag a mynd adra, ffindio w bath 'dw i'n licio 'neud, rhentu tÿ bach yn lle stafall sydd 'run seis â cwpwrdd

*airio*, a jysd *joio*... 'Dw i'n meddwl 'mod i jysd di cyrradd pwynt lle ma' bob dim yn *anticlimax*. Bach o siom. Ond ma' raid fi jysd cario 'mlaen. Ella bo' fi dal ddim 'di rhoi digon o amsar i'r profiad, i *setlo*. Ond 'dw i'm yn teimlo bo' fi wedi nac yn mynd i neud be o'n i'n ddisgwyl 'i 'neud, be bynnag o'dd hynna.

Ma'r waliau gwyn llachar a'r dodrefn *IKEA* yn mynd ar fy nyrfys i. Rhy lân a rhy amheronol. Neshi roi'r lamp oren 'ma ar y wal i drïo neud i'r lle edrach

yn fwy cynnes a chartrefol. Na'th o'm gweithio. Wel, na. *Acshyli*, mae o'n gweithio'n *rhy* dda. Mae o'n atgoffa fi o watsiad yr haul yn mynd lawr dros y môr adra. 'Dw i jysd isio mynd adra... 'Dw i'm yn siwr os ydw i'n trïo perswadio fy hun bo' fi'n mwynhau, 'ta trïo perswadio pawb arall. Ond tydi'n llun i jysd ddim yn ffitio i mewn i ffrâm y ddinas 'ma, dim ots faint 'dw i'n stwffio, torri, plygu a cropio. O'n i disgwyl slotio fy hun yn daclus i mewn i'r *Hall of Fame*. 'Di o'm mor hawdd â

hynna. I fi eniwe. Mae o fatha trïo tynnu llun o'r lleud efo camera. *Pointless*.

O bell pan ti'n sbïo ar y *skyline*, a pan ti'n dychmygu be sy' ar yr ochr arall i'r cyrtans mwclis aur, ma' bob dim yn edrach yn braf a'r haul wastad yn tywynnu. Ond wedyn ma' 'na *eclipse*. *Anticlimax*. A ti'n sylwi...

**Mae ffôn LOWRI yn canu.**

*Shit!* Gwaith!



Gallwch weld mwy o waith Teleri Lea ar ei chyfrif Flickr trwy ddilyn y ddolen hon: <https://www.flickr.com/photos/155545874@No8/with/38664910435/>



# ERIN MADDOCKS NODIADAU' R DYLUNYDD



Mae Erin Maddocks yn ddylunydd set a gwisgoedd. Holwyd hi am ei phroses greadigol gan Y Stamp ...

Mae'r broses cynllunio theatr yn gallu bod ychydig yn wahanol o un cynhyrchiad i'r llall, ond mae'n dueddol o gychwyn gyda sgrïpt, panad, a chyfarfod efo'r cyfarwyddwr i drafod syniadau. Dwi'n licio darllan y sgrïpt y tro cyntaf am

fwynhad, a heb wneud unrhyw nodiadau. Y tro nesa, a'r tro nesa, a'r tro wedyn y bydda i'n ei ddarllan, mi fydda i efo set o gwestiynau i drïo eu hateb sydd yn gallu bod mor ymarferol â — 'lle yda ni', 'pw y 'di hwn', 'pa gyfnod ydi o', i rai mwy ab-

stract fel- 'pa liwiau sydd yma', 'sut mae'r gofod yn neud ifi deimlo'. Mae hyn yn helpu i ddechra creu llun yn fy mhen o'r gofod.






Gweithio ar wisgoedd Gwydion yn y stiwdio



**GWYDION**

**CWMNI THEATR MALDWIN**  
**AWST 2015**

Derec Williams  
Penri Roberts  
Gareth Glyn



Pryd?

pa gyfnod? Effenau cynteg heb setio darn mewn oes 'medieval' - Na! Rhwybeth bron yn apocalyptic? Gwossi rhywbe

Natur

-cyfarbynu ddn natur v elfenau rhyfelgar  
Abath

Rhyfel

Byddin v Byddin

- Arfau
- Metai
- Caled

Treisiio

Byd pengs

Dim 'Morals'

Hud a Hedieth

Mynyddig, coedwigedd, afonydd, oerni. & Cwyt, glaw, gaefol?

Cynteg;  
Caled, cabarn, talhuy - Hela

Dalblygiad yn ychymra dny'i sice, Ddodduedd yn cael ei ddefn yn y granuyni.





THEATR DC BARACAWS  
uninvited guests  
fuel

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD  
**GAIR O GARIAD**  
Gwahoddiad i ddigwyddiad mwyaf rhamantus yr wythnos yng nghwmni:  
**Rhodri Siôn a Lleuwen Steffan**  
Dewch i gynnig llwncdestun i gariadon o bob math...cariadon hen a newydd.  
Cariad rhwng dau, rhwng dwy, rhwng plant a'u rhieni, rhwng ffrindiau, rhwng perchogion a'u hanifeiliaid...  
**Canolfan Chapter Caerdydd**  
06-08-18 | 10-08-18  
Mewn cydweithrediad â:  
Canolfan Chapter Caerdydd  
Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd  
Am fwy o fanylion ewch i:  
[www.theatrbacaws.com](http://www.theatrbacaws.com)

THEATR DC BARACAWS

## Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Sgriptio gyda Fflur Dafydd a Gwyneth Glyn  
Dydd Sadwrn 29 - Dydd Sul 30 Medi

Cynganeddu gyda Karen Owen  
Dydd Sadwrn 6 Hydref, 11.00 am - 5.00 pm


Sgriptio Comedi Sefyllfa gyda Sioned Wiliam  
Dydd Sadwrn 27 Hydref, 11.00 am - 5.00 pm

Newyddiaduraeth gydag Ifan Morgan Jones  
Dydd Sadwrn 3 Tachwedd, 11.00 am - 5.00 pm

Rhyddiaith gyda Caryl Lewis  
Dydd Sadwrn 10 Tachwedd, 11.00 am - 5.00 pm

Am ragor o wybodaeth, ac i archebu eich lle, ewch i:  
[www.tynewydd.cymru](http://www.tynewydd.cymru)

Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd, LL52 0LW  
01766 522 811 / [tynewydd@llynyddiaethcymru.org](mailto:tynewydd@llynyddiaethcymru.org)



# CYHOEDDIADAU' R STAMP

Cyhoeddwy'r llyfrau  
annibynnol



£7



ar adain iestyn tyne

£7

bellach ar gael o:

Llên Llŷn, Pwllheli  
Palas Print, Caernarfon  
Awen Meirion, Y Bala  
Siop Inc, Aberystwyth  
Siop y Pentan, Caerfyrddin  
Siop Cwtsh, Pontyberem  
Cant a Mil, Caerdydd

[cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com](mailto:cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com)

[ystamp.cymru/llyfrau](http://ystamp.cymru/llyfrau)

**ERIN MADDOCKS** (parhad o dud. 21)

Dwi'n licio dechrau drwy weithio mewn llyfr sgets, gwneud lot fawr o ymchwil, a hel lot fawr o delweddau. Mae mood-boards yn helpu i gael trefn ar y syniadau ac i gychwyn datblygu themau. Yn fuan wedyn, mi fyddai'n dechra gweithio mewn 3D, a defnyddio darnau o gerdyn i greu siapiau a strwythurau eithaf 'rough', sy'n galluogi i ni chwarae o gwmpas efo siâp y

darn a gweld be sydd yn gweithio. Unwaith mae syniad mwy cadarn wedi datblygu, mae'r model cerdyn gwyn, ac yna y model terfynol yn cael eu creu, sydd yn fersiynau bach 'to scale' o'r set.

Pan mae hi'n dod at gynllunio gwisgoedd, mae hi'n bwysig cael input yr actorion am sut mae nhw'n bwriadu chwarae y rôl, a gweithio fel tîm i ddod â'r cymeriad

yn fyw. Dwi'n licio gallu trio gwahanol bethau i weld beth sy'n gweithio — mae dillad yn gallu edrych mor wahanol ar hanger i pan maen nhw'n cael eu gwisgo, ac yn gallu 'make or break' cymeriad!

Un o'r darnau mwyaf cyffrous ydi gweld y set wedi ei hadeiladu, ac yn yr ystafell ymarfer am y tro cyntaf gyda'r actorion yn gweithio arni.

## Y TAD

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU  
CHWEFROR – MAWRTH 2018

Florian Zeller  
cyf. Geraint Løvgreen



## A GOOD CLEAN HEART

THE OTHER ROOM  
MEDI – HYDREF 2016

Alun Saunders



Mae cynhyrchiadau eraill a weithiodd Erin arnynt yn cynnwys *Boho* (Theatr Clwyd a Hijinx), *Chwalfa* (Theatr Genedlaethol Cymru), *Saer y Sêr* (Cwmni Frân Wen), a *Dilyn Fi* (Cwmni'r Frân Wen).



# CYFWELIAD

Miriam Elin Jones yn sgwrsio â

## MEGAN JOHN

Heb os, mae gweithio'n llawrydd ym myd y theatr a'r cyfryngau creadigol yn cynnig heriau annisgwyl. I Megan John, gellid dweud bod yr heriau'n fwy iddi na'r berfformwraig arferol â hithau wedi ei geni â nam ar ei golwg. Serch hynny, nid yw hynny wedi ei rhwystro rhag ymddiddori a thafu ei hun i fyd y theatr. Dyma sgwrs am ei gwaith gydag **UCAN Productions** a phwysigrwydd creu profiadau theatraidd sy'n hygyrch i bawb.

### Beth am ddechrau drwy 'weud rhyw fymryn amdanat ti dy hun? Un o ble wyt ti, ac o ble dyfodd dy ddiddordeb ym myd y theatr?

Wel, dwi'n 26, yn dod o Gaerdydd ac mi ges i 'ngeni â nam golwg. Mae byw gyda nam golwg yn bendant yn gallu bod yn sialens ond dwi erioed wedi gadael i'r anhawster yma stopio fi rhag 'neud beth dwi eisiau. Ar hyn o bryd, dwi'n gweithio'n *freelance* yn y celfyddydau gyda mwyafrif y gwaith dwi'n neud ynghlwm â chwmmi UCAN Productions.

Fe ddechreuodd diddordeb fi yn y theatr pan o'n i tua 13 oed a ges i'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy drama i blant â nam golwg. Heblaw am 'neud drama yn yr ysgol, dyma oedd y profiad cyntaf ges i o'r byd celfyddydol a'r theatr a chwmpais i mewn cariad yn syth.

### O ran dy nam golwg, sut mae hynny wedi effeithio'r modd wyt ti'n mynychu'r theatr? Oes 'na enghraifft gyda ti lle bu hyn yn broblem?

Mae cael nam golwg yn bendant wedi creu nifer o anawsterau o ran mynychu'r theatr. Fel rhywun sy'n lyfio'r celfyddydau a mynd i'r theatr, mi fydda i'n dewis mynd i weld beth bynnag dwi eisiau. Er hyn, wrth i mi benderfynu ar beth dwi'n mynd i weld ma' nifer o bethau i'w hystyried;

Lle mae'r perfformiad? Pa fath o berfformiad yw e? Lle dwi am eistedd? A fydd angen Audio Description neu binoculars arna i? Mae yna lot o baratoi a

planio yn mynd mewn i drip mor syml â'r theatr.

I fi mae gen i fwy o hyder i sefyll ar lwyfan yn perfformio na mynychu theatr fel aelod o'r gynulleidfa. Dwi'n ffeindio fy ffyrdd fy hun o allu cael y profiad gorau allan o unrhyw berfformiad felly.

Alla i'm meddwl am enghraifft penodol ond y math o bethau dwi wedi brwydro â nhw yn y gorffennol yw perfformiadau sy'n lleoliad spesifffig sydd ddim yn hygyrch ar drafnidiaeth cyhoeddus. Dwi hefyd wedi cael profiadau negyddol gydag *audio description* lle mae'r disgrifiwr yn siarad dros y deialog.

### Beth am drafod mwy am Gwmni UCAN?

Mae UCAN Productions yn gwmni perfformio a chreadigol i blant a phobl ifanc â nam golwg a'u ffrindiau. Trwy weithdai drama a cherddoriaeth ni'n gweithio i helpu datblygu hyder corfforol a lleisiol, codi dyheadau a hybu galluoedd unigol.

Sefydlwyd y cwmni yn 2005 gan yr actor a'r cyfarwyddwr Bernie Latham a'i wraig Jane i alluogi i bobl ifanc â nam golwg gael mynediad at y celfyddydau. Fe ddaeth yr ysbrydoliaeth i greu'r cwmni ar ôl iddyn nhw wirfoddoli mewn ysgol ar gyfer plant dall yn Sierra Leone yng Ngorllewin Affrica. Dechreuodd UCAN gyda gweithdy drama yng Nghaerdydd gyda deuddeg o bobl ifanc â nam golwg ac erbyn hyn mae dros 600 o bobl ifanc ledled Prydain a Ewrop yn aelodau.

Gweledigaeth y cwmni yw i herio canfyddiadau pobl ac i brofi nad yw nam golwg yn rhwystr rhag llwyddiant. Ni'n herio'r canfyddiadau yma trwy'r gweithdai drama gan brofi gallu pobl â nam golwg, cyflogi pobl â nam golwg a



rhedeg sesiynau hyfforddi yn trafod ergyd emosiynol a chorfforol byw gyda nam golwg gyda myfyrwyr Optometreg, meddygon iau a myfyrwyr o ysgolion bagloriaeth ryngwladol. O ddydd i ddydd, mae'r gwaith yn amrywio gan ddibynnu ar ba prosiectau sy'n digwydd ar unrhyw bryd a dyw'r un wythnos byth yr un fath.

Dwi 'di bod yn rhan o'r cwmni bron a bod ers y dechrau — mi o'n ni'n 13 pan ges i'r cyfle gyntaf i gymryd rhan yn un o'r gweithdai ac nes i ddim edrych 'nôl. I fi mae UCAN yn rhan mawr o mywyd i. Ni wastad yn jocian bo' ni gyd fel ail deulu i'n gilydd! Dwi 'di bod yn ddigon ffodus i fod yn rhan o'r cwmni am gymaint o amser fel aelod ond gan ddatblygu hefyd i weithio iddyn nhw erbyn hyn.

**Mae'r gweithdai yn amlwg yn rhan bwysig o waith UCAN Productions.**



**Beth wyt ti'n gweld y bobol ifanc yma'n cyflawni wedi bod yn rhan o UCAN? (Mae rhai o'r testimonials ar y wefan yn anhygoel ac yn hyfryd i ddarllen.)**

O'n i mor hapus o weld y cwestiwn yma gan ei fod yn bwnc dwi'n rili passionate amdano ac mae gen i gysylltiad personol, oherwydd dyma lle ddechreuais i. Er ein bod yn 'neud lot o waith amrywiol yn UCAN, craidd y cwmni yw gweithio gyda'r plant a phobl ifanc â nam golwg. Allu i'm esbonio pa mor bwysig yw'r gweithdai — maen nhw'n rhoi cyfle i'r bobl ifanc weithio gydag eraill â nam golwg ac eraill heb, a hynny mewn awyrgylch ac amgylchedd cwbl gefnogol. Dyma'r cyfle i anghofio'r anabled a jyst mwynhau. Y ffaith fod gen ti nam golwg yw'r peth olaf ar feddwl pawb.

Prif amcan y gweithdai yma yw codi hyder lleisiol a chorfforol y bobl ifanc, taclo arwahanrwydd a dangos bod ganddyn nhw'r potensial i lwyddo. Dwi wir yn sefyll gyda'r datganiad yma oherwydd mai gweithdai o'r math yma sy'n gyfrifol am yr hyder sydd gen i heddiw ac a ddangosodd i fi beth all gael ei gyflawni. Dwi wedi bod yn ddigon ffodus i hyfforddi fel arweinydd gweithdai a chael y cyfle i weithio gyda phobl ifanc. Mae'n fraith anhygoel i weld pa mor gyflym mae hyder pobl yn tyfu a thrawsnewid yn ystod y gweithdai.

**Rhywbeth sylwais i am waith UCAN yw bod y cwmni'n defnyddio sgiliau perfformio ar gyfryngau gwahanol – er enghraifft, mae gennych UCAN Radio sy'n cynnwys opera sebon a phethau felly. Pa mor bwysig yw hi ein bod ni'n meddwl am theatr fel rhywbeth sy'n bodoli oddi ar lwyfan yn ogystal ag ar lwyfan?**

Dwi'n meddwl bod o'n bwysig iawn i weld theatr nid fel rhywbeth sydd ar lwyfan yn unig. Mae theatr yn gallu bodoli mewn lot o ffurfiau gwahanol i lot o bobl a dwi'n meddwl y dylai pobl cael y creadigrwydd i 'neud beth mae nhw eisiau. Oherwydd hyn, rydan ni'n creu pethau sydd falle yn fwy hygyrch i bobl wahanol boed yn fwrriadol ai peidio. Dyma sy'n wych am UCAN Radio. Mae'r pethau ni'n creu yn adlewyrchu y math o waith 'dan ni'n neud ac yn rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc berfformio. Yn ogystal â hyn mae'r cynnwys yn berffaith i bobl â nam golwg, yn enwedig aelodau UCAN.

**Rwy'ti hefyd yn awyddus i drafod ap**



**sydd wedi ei ddatblygu gan UCAN – beth am rannu rhywfaint amdano?**

Enw'r ap yw UCAN GO — app llywio dan do sy'n galluogi pobl â nam golwg i gael mynediad i leoliadau celfyddydol gyda hyder. Crëwyd yr ap fel rhan o'r Gronfa Digital R'n'D ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru. Mae'r ap wedi mapio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Theatr y Torch a Hackney Empire Theatre ac mae gan yr ap dair swyddogaeth, sef:

- 1. Trosolwg** - mae Trosolwg yn rhoi disgrifiad i chi o bob prif ofod yn y theatr, gan eich galluogi i greu map meddyliol o sut byddent yn edrych.
- 2. Route** - swyddogaeth Route yw eich llywio chi o un ardal o'r theatr i un arall, gan fynd mor bell â'ch tywys o'r drws i'ch sedd. Mae'r app hwn yn gadarn- hynny ydi, nid yw'n dibynnu ar dechnoleg ychwanegol fel Google Maps. Unwaith y byddwch wedi dweud ble ydych chi a ble y byddwch chi'n mynd, bydd o'n eich tywys gyda gorchmynion clywedol a gweledol.
- 3. Personoli** - mae'r opsiwn i bersonoli yn eich galluogi i addasu'r ap i fformat hygyrchedd sydd fwyaf addas i chi. Gallwch amrywio y math o gyferbyniad lliw, cyflymdra Siri, rhywedd y toiledau, mesuriadau mewn metrau neu droedfeddi, a gallwch hyd yn oed ddewis rhwng y grisiau neu'r lifft. Mae'r ap yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr ei lawrlwytho o'r Apple App Store.

**Bosib fod hyn yn gwestiwn amlwg, ond pa mor bwysig yw creu theatr sy'n hygyrch i bawb (accessible theatre)?**

Ie, cwestiwn amlwg ond un sy'n holl bwysig. Mae gen i farn gref iawn ynglŷn â sicrhau cydraddoldeb i unrhyw un ag anabled ac er fy mod i'n dod o safbwynt rhywun â nam golwg fyddwn ni byth yn siarad ar ran rhywun sydd mewn sefyllfa nad ydw i'n ei deall. Mi ddweda' i hyn: dwi'n deall pwysigrwydd cynhwysedd a chael yr hawl i bopeth mae pawb arall yn gallu ei gael a'i brofi, felly mae creu theatr hygyrch mor bwysig, oherwydd pam ddylsa anabled eich hatal chi rhag engageio â rhywbeth mor syml â theatr pan fod yna ffyrdd hawdd o'i addasu? Yn bersonol, mae mynychu'r theatr yn rhywbeth dwi'n lyfio ac yn fath o ddihangfa i fi, felly y mwya' o theatr hygyrch sydd yn cael ei greu *the better!*

**Sut berthynas sydd gan UCAN â chwmnïau theatr hygyrch eraill?**

Mae gennym ni berthynas grêt gyda'r cwmnïau hygyrch eraill — ni gyd yn gweithio tuag at yr un nod ac felly yn awyddus iawn i annog a chefnogi'r gwaith sy'n cael ei greu ac yna i roi adborth i'n gilydd er mwyn creu'r gwaith gorau allwn ni.

**Sut all cwmnïau theatr eraill wneud eu perfformiadau'n fwy hygyrch? Wyt ti'n gweld pobol eraill yn gweithio tuag at greu cyfleon hygyrch o fewn y**

## diwydiant theatr?

Mae'n grêt gweld cwmnïau sydd eisoes yn dechrau 'neud camau tuag at greu theatr fwy hygyrch, ond er hynny dwi am fod yn onest a dweud 'mod i weithiau'n teimlo fel bod na fwy i'w neud. Fel rhywun â nam golwg dwi'n gallu bod bach yn *demanding!*

Enghraifft o bethau all 'neud theatr yn fwy hygyrch i fi'n bersonol yw ystyried — pan fo perfformiad yn lleoliad spesifig — beth all fod yn sialens o rhan cyrraedd y *venue*. Fel nes i sôn o'r blaen dwi wedi methu perfformiadau o'r blaen oherwydd hyn. Ystyried hefyd lle mae'n bosib i gynnwys yr *audio description* o fewn y sgript — dyma rhywbeth rydan ni fel cwmni yn ymdrechu i 'neud fel sawl un arall ac hefyd yn cynnal Touch Tour – sef cyfle i fynychwyr theatr dall neu â nam golwg gael cyfle i grwydro a themlo set cynhyrchiad o flaen llaw - un o'r pethau mwyaf *underrated* sy'n gallu neud byd o wahaniaeth i rhywun â nam golwg. Dwi'n bendant yn gweld cwmnïau yn ymdrechu tuag at berfformiadau fwy hygyrch a'r

esiampwl fwyaf diweddar sydd gen i yw perfformiad cwmni Gaggledabble o Double Vision oedd yn rhan o Wyl y Llais.

**Rhaid cyfaddef, wrth baratoi ar gyfer dy gyfweld, nes i struglo gyda thermâu Cymraeg ar gyfer pethau fel 'accessible theatre' a 'visual impairment' — mae creu cyfleon hygyrch yng Nghymru yn un peth, beth wyt ti'n meddwl o'r sefyllfa drwy gyfrwng y Gymraeg?**

Ie, mae'n un anodd oherwydd bod cymaint o ymdrech y cael ei 'neud i annog cwmnïau i fod yn fwy hygyrch a hysbysebu hynny, ond i rai sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog dwi'n meddwl bod 'na fwy o sialens a rhwystrau iddyn nhw'n bendant.

Y sefyllfa ddelfrydol fyddai cael theatr Gymraeg hygyrch, ond weithiau mae'n anodd cyfuno'r ddau neu does na ddim mo'r arian i 'neud hynny. Hefyd mae'r eirfa yn gallu bod yn broblem oherwydd nid yw'r derminoleg ar gyfer

anableddau a gwasanaethau hygyrch yn y Gymraeg mor gyfarwydd i ni ag y mae yn y Saesneg. Felly gall gweithredu hwn o fewn y byd theatr fod yn lot anoddach. Ond i fod yn onest, dyw'r derminoleg yn Saesneg ddim yn berffaith chwaith!

**Beth sydd gan UCAN ar waith ar hyn o bryd – a beth fydd nesaf?**

Ar hyn o bryd ma' lot o brosiectau gwahanol yn mynd ymlaen gyda ffofocs mawr ar greu mwy o cyfleoedd i'r plant a phobl ifanc. Mae'r wyl flynyddol ni'n ei ddathlu yn y WMC yn digwydd diwedd mis Gorffennaf a lansiad *venue* newydd i'r ap UCAN Go ddim yn bell i ffrwrdd chwaith. Ar hyn o bryd does gennym ni ddim sioe i'w hysbysebu ond fi'n siŵr fydd 'na rhywbeth cyn bo hir.

[ucanproductions.org](http://ucanproductions.org)



IAN ROWLANDS

## CENEDL? PA GENEDL?

Wedi Datganoli yn 1997, wnaeth yr Albanwr Paul Henderson Scott ddarogan, 'Oni bai am theatr genedlaethol bydd gan yr Alban "dwll atgof" (memory hole) yng nghalon y genedl.' Llenwyd y twll hwnnw yn 2006 pan sefydlwyd National Theatre Scotland; endid a oedd yn meddu ar rôl allweddol i'w chwarae yn nrama feunyddiol y genedl sifig (hunaniaeth berfformiadol). Ond yng Nghymru, fe lenwyd y twll hwnnw ddwywaith drosodd a thrwy hynny, llwyddwyd i atgynhyrchu'r ddeuliaeth ddiwylliannol sy'n tanseilio unrhyw rôl sifig ar gyfer y theatr fel cenedl-grewr yn y Gymru sydd ohoni.

Yn ei chyfrol, *National Theatres in Context*, mae Anwen Jones yn olrhain esblygiad theatrau cenedlaethol Ffrainc, Yr Almaen a Lloegr. Wedi hynny, mae'n gwrthgyferbynnu'r uchod gydag ymdrechion y Cymry i greu theatr genedlaethol yn ystod y ganrif ddiwethaf. Gellir ystyried ei chyfrol, a gyhoeddwyd yn 2007, fel ymgais i sicrhau uchafiaeth ar gyfer y Theatr Genedlaethol Gymraeg (a sefydlwyd yn 2003), dros unrhyw endid uniaith Saesneg a ddaw. Mae'r ffaith iddi lwyddo i drafod endidau theatrig cenedlaethol Cymraeg y Cymry heb sôn am ddyfodiad arfaethedig National Theatre Wales yn gam ynddo'i hun.

Yn ei rhagarweiniad, ysgrifennodd (fe ddyfynnaf yn yr iaith wreiddiol):

A national theatre is not an imagined community, but a community of imagination and imagining therein is a creative cultural activity that maps out its territories by means of a process of interactivity and interrelationality.

Tra bod gan y 'gymuned o ddychmygu' (esblygiad o gysyniad Anderson) y potensial i saernïo cymdeithas a chreu cenedl, yn unol â gweledigaethau Schiller a Goethe, nid yw dychmyg y lleiafrif yn ddigon o ddychmyg i ddychmygu cenedl gyfan; yn enwedig os yw'r lleiafrif yn mynnu ynysu ei hun oddi wrth ddychmyg y mwyafrif. Mae Jones yn nodi bod y sefyllfa yng Nghymru yn unigryw:

in the context of this current

study in that it is the only country undertaking the analysis and definition of its own national identity by means of a national theatre within the context of an overreaching framework in which another language reigned supreme.

Mae semanteg yr uchod yn ddifyr am iddi amlygu'r cenedlaetholdeb gwaed (Herderaid) sydd wrth wraidd ei dadansoddiad; y fath genedlaetholdeb, hoffwn i ddadlau, sydd wedi esgor ar ein diffyg gallu hanesyddol i greu theatr wir genedlaethol a thrwy hynny uno'r genedl gyfan.

Yn y 1970au, yn debyg i heddiw, roedd dwy theatr genedlaethol yn bodoli; the Welsh Theatre Company (1962–78) a Chwmni Theatr Cymru (196–84). Gyda thranc yr endid uniaith Saesneg, fe adawyd gwagle, un a fyddai Cwmni Theatr Cymru wedi gallu llenwi petai'r cwmni wedi meddu ar yr awydd i esblygu'n endid dwyieithog. Mae'r ffaith iddo beidio â chodi i'r her ac eto dal i hawlio'r epithet 'cenedlaethol' yn nodedig. Fe gollwyd cyfle i greu 'cymuned o ddychmygu'; theatr ddwyieithog, ar delerau'r Cymry, ar gyfer Cymru gyfan. Nid dyma oedd y tro cyntaf i'r Cymry fethu arbed y blaen, ac yn anffodus, nid dyma'r tro olaf chwaith.

Ym mis Ionawr 1914, cofrestrwyd the Welsh National Drama Co. gan yr Arglwydd Howard de Walden. Yn ôl Owen Rhoscomyl, cefnogwr brwd, roedd sefydlu'r cwmni yn weithred oleuedig a fyddai'n fodd i greu cenedl; 'Cymric endeavour'. Trwy sefydlu theatr seciwlar ddwyieithog ar gyfer yr egin *bourgeoisie* Cymreig roedd de Walden yn herio goruchafiaeth y pulpud a'i iaith lydan. Petai menter de Walden wedi llwyddo, a fyddai wedi bod yn ddrych Lacanaidd i'r egin-genedl, a hynny ganrif yn ôl? Ond nid dyna a fu. Dywedodd George Bernard Shaw, 'If Wales will not have the best that Wales can produce, she will get the worst that the capitals of Europe can produce, and it will serve her right.' Am felltith!

Cafodd cynhyrchiad y cwmni o'r ddrama *Change*, gan J. O. Francis, a lwyfannwyd yn y New Theatre, Caerdydd, cryn ganmol. Os oedd ymateb brwd y brifddinas yn arwydd o awydd y

genedl i 'feddu ar y gorau' yna roedd theatr genedlaethol de Walden a'i chynulleidfya, yn ôl Lloyd George, yn adlewyrchiad o barodwydd y genedl ethnig i droi'n gymdeithas sifig. Ond, yng nghyd-destun yr ymateb cymysg a dderbyniwyd gan y cwmni yn ystod ei hymweliad ag Abertawe, teg byddai dweud roedd sylw Lloyd George braidd yn gynamserol. O ystyried y feirniadaeth hallt a ddaeth o blith y cenedlaetholwr gwaed, teg gofyn a oedd y Cymry wir yn gymwys, o ran ei allu i newid, ac yn ail, yn barod i newid?

Datganodd Beriah Gwynfe Evans, 'the national talent of Wales does not take kindly to professionalism'. Mynegiannau amatur oedd congllfeini'r traddodiad Cymraeg. Petai de Walden a'r Welsh National Theatre Company am gyfoethogi'r diwylliant cynhenid, yna dylai gefnogi a chynnal y mudiad amatur plwyfol. Byddai unrhyw gam tuag at fyned i'r sffêr cyhoeddus ar ran y Cymry (*public sphere*, Habermas) yn peryglu eu hanfod.

Yn ôl J. Tywi Jones, roedd yr arferion amatur Cymraeg, at ei gilydd yn creu amddiffyniad yn erbyn y llifddwr o Saesneg a oedd yn bygwth boddi'r genedl. Nid brwydr rhwng yr amatur a'r proffesiynol oedd hi go iawn ond brwydr rhwng corff (*descent*) ac enaid (*ascent*); iaith oedd y *casus belli*; iaith nid ansawdd gwaith oedd y ffon fesur. Roedd y 'Cymric Endeavour', a'i mynegiant theatrig, yn bygwth hunanweledigaeth y Cymry ar yr union adeg pan droesant o fod yn fwyafrif i fod yn lleiafrif o fewn eu tiriogaeth eu hunain. Gwaetha'r modd, fe gollodd de Walden y dydd ac fe ddiddymwyd ei gwmini. Ond wrth i'r mudiad amatur dyfu ar draul y 'proto Abbey Cymreig', fe edwinodd y cymunedau Cymraeg a oedd yn ei chynnal gan esgor ar fynegiannau theatrig di-nod a diweledigaeth ac ynysu'n ddiwylliannol.

Yn ôl Simon Brooks, yn sgil cyhoeddiad adroddiad y Llyfrau Gleision (1847), fe gofleidiodd y Cymry yr 'aeth' anghywir – Rhyddfrydiaeth Gyfalafol – ac o ganlyniad, 'ni fu Cymru'. O dderbyn ei thesis, gellir dadlau, ar gychwyn yr ugeinfed ganrif, y cofleidiodd y Cymry yr 'aeth' anghywir am yr eildro – toc cyn i'r mwyafrif gofleidio Sosialaeth, 'aeth' arall; tri chynnig i Gymro! Trwy fynnu ar

amaturiaeth uniaith ar draul proffesiynoldeb dwyieithog, fe lwyddodd yr Herderiaid Cymraeg ddiddymu un o'r ychydig endidau gallai wedi pontio'r gagendor ieithyddol a diwyllianol a ledodd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif; chwalwyd yr endid gan y Cymry eu hunain; hunan-frac yw thema Brooks.

Fel petai hynny ddim yn ddigon, yn yr 1970au, wedi derbyn proffesiynoldeb, fe adawodd y Cymry i'r Welsh Theatre Company farw heb ystyried y fantais wleidyddol byddai wedi bod gan y Cymry petai Cwmni Theatr Cymru wedi amsugno'r ddarpariaeth Saesneg a chofleidio dwyieithrwydd h.y. creu theatr genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan yn seiliedig ar werthoedd y Cymry; Achub y blaen. Nid oedd yr epithet 'cenedlaethol' a hawliwyd gan Gwmni Theatr Cymru yn 'hallmark of quality', chwadad Jones. Yn hytrach, fe hoffwn i gynnig, roedd yn arwydd o ddiffyg dychmyg ar ran y Cymry a'u or-barodwydd ar gofleidio rôl yr orthrymedig.

Gadewch i ni ystyried sylwadau Lord Crowther, Cadeirydd y Comisiwn Brenhinol ar Gyfansoddiad Gwlad wedi iddo hel tystiolaeth yng Nghymru a'r Alban cyn Refferendwm 1979. O gymharu'r ddwy genedl, ei gasgliad oedd mai dyhead y Cymry oedd 'eisiau dod i fodolaeth' (*want 'to be'*) o'u cymharu â'r Albanwyr a oedd eisoes yn bodoli ac a oedd 'eisiau gwneud' (*want 'to do'*). Pan gododd cyfle i'r Cymry 'wneud' a bod yn ddrych i genedl gyfan, fe benderfynon nhw hollti'r drych. Cynigiau mai gweithred cenedl sydd wedi eu trawmateiddio gan *psycho-colonialism* ôl-drefedigaethol yw hwnnw. Rhaid i ni fod yn ddewr os ydym am greu cenedl gyfan sy'n gweithredu fel un yn hytrach na chenedl sydd wedi ei hollti a'i pharlusu gan y dyhead hanesyddol i fod yn un. Mae gan theatr y gallu i newid cwys a meddylfryd cymdeithas. Tristwch mawr y theatr Gymraeg yw i'r Cymry beidio â

chaniatáu iddi godi i'r her hwnnw ddwywaith mewn canrif. Yn nwf n yng nghanol cyfrol Jones, mae sylwadau'r bonheddwr Tom Jones o 1894 wedi eu claddu, 'oherwydd yr amrywiaeth ieithyddol wrth wraidd y gymdeithas Gymraeg, o reidrwydd bydd unrhyw theatr genedlaethol a gyfyd yn theatr ddwyieithog'; a hynny cyn troad yr ugeinfed ganrif cofiwch!

Yn anffodus roedd gweledigaeth Tom Jones ar fore oes y drafodaeth am theatr genedlaethol yn groes i ddymuniad cenedlaetholwyr gwaed sydd wedi sicrhau trosodd a thro dranc unrhyw weledigaeth gwir genedlaethol. Tra ei bod hi'n ddealladwy mai ymateb i fygythiad yr iaith fain oedd wrth wraidd y diffyg dychmygu, petai theatr genedlaethol ddwyieithog wedi bodoli yn y 70au, byddai wedi bod, o bosib yn ddyfais i wrthwynebu rhagfarnau afiach Abse a Kinnock; rhagfarnau sydd yn tansilio ein democratiaeth hyd heddiw ac yn ein hollti ni fel cenedl. Er na fyddai theatr genedlaethol ddwyieithog ynddo'i hun wedi llwyddo i ddarbwylllo Cymru gyfan o werth datganoli yn 1979, erbyn 1997, siawns y byddai'r 'gymuned o ddychmygu' wedi ennill y dydd mewn modd mwy emffatig na dim ond o drwch blewyn? Byddai unrhyw ddamcaniaeth yn ddibwys oni bai am drydydd cyfle i weithredu a wastraffwyd toc wedi Datganoli.

Pan gyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei strategaeth ar gyfer y theatr yng Nghymru yn 1999, y bwriad (dros dro) oedd creu dwy theatr genedlaethol. O'r cychwyn cyntaf felly, fe grëwyd deuoliaeth unwaith yn rhagor a hynny, os cofia i, ar garlam gwleidyddol anweddus gan sathru ar draed unrhyw 'Cymric endeavour'. Eto fyth, tybiaf mai pwysedd gwleidyddol y garfan Herderiaid oedd yn gyfrifol am hyn. Ar gychwyn y 'Broses' o gyd-ddyheu, ar yr union eiliad pan fyddai Cymru gyfan wedi

gallu hawlio'r diffiniad 'ôl-drefedigaethol' a chreu strategaeth integreiddiedig ar gyfer theatr a fyddai wedi bod yn ddrych i'r genedl gyfan, fe benderfynodd etifeddion Beriah Gwynfe Evans hollti'r drych unwaith yn rhagor, ynysu'r Cymry a'u mynegiannau theatrig yn ieithyddol ac yn ddiwyllianol a pheryglu unrhyw ddyfodiad o Gymru fel endid unedig i'r byd.

Yn 2013 fe wnes i gyfwrdd â John E. McGrath, cyfarwyddwr cyntaf National Theatre Wales ar gyfer erthygl a gyhoeddwyd yn *Contemporary Theatre Review*. Wedi'r cyfwrdd ffurfiol, gofynnais iddo pam nad oedd y cwmni'n cynhyrchu gwaith dwyieithog na chwaith yn gweithredu ar y cyd gyda Theatr Genedlaethol Cymru? Ei ateb oedd 'It would not be politic for me to do such work and I can only wait for Theatr Genedlaethol Cymru to approach me.' Hyd hynny (2013), doedd ThGC ddim wedi cynnal deialog â NThW. Fy melltith Shafaidd i yw, ni ddaw Cymru i fodolaeth ar ddau lwyfan. Nid yw dwy theatr genedlaethol yn creu un genedl; yn enwedig cenedl anfoddog. Yr eironi yw, wedi datganoli, mae'r iaith yn gadarn o'i chymharu â'r cysyniad o'r genedl sy'n simsanu; yn enwedig yn sgil Brexit. Y cwestiwn y dylem ni ofyn ydy beth sy'n bwysicach, y genedl ynteu'r iaith? Dim ond trwy uno'n ieithoedd ar lwyfan gwlad (gyda'r Gymraeg yn flaenaf) gall y theatr yng Nghymru fod yn ddrych go iawn i genedl gyfan sydd yn meddu ar y gallu Albanaidd i 'wneud', yn hytrach na thindroi mewn stad o 'eisiau bod' ad syrffed. O ran y 'twll atgof' (*memory hole*), plediaf: un cwmni, sawl iaith – un genedl.

**- Mae lan wedi paratoi llyfryddiaeth fanwl ar gyfer yr ysgrif hon. Gellir ei gweld trwy ddilyn y ddolen hon: <https://www.ystamp.cymru/llyfryddiaeth-ian-rowlands> - Gol.**

"Rhaid i ni fod yn ddewr os ydym am greu cenedl gyfan sy'n gweithredu fel un yn hytrach na chenedl sydd wedi ei hollti a'i pharlusu gan y dyhead hanesyddol i fod yn un. Mae gan theatr y gallu i newid cwys a meddylfryd cymdeithas."



## EFA DYFAN NODIADAU' R DYLUNYDD

Wrth gychwyn ar sioe bypedau newydd byddaf yn eistedd lawr gyda'r tîm creadigol i fynd trwy'r sgript a thrafod syniadau. Rydw i angen gwybod pwy ydi'r cymeriadau gwahanol, pa rai sydd yn bypedau, a sut yn union maen nhw'n ffitio i fewn i'r sioe. Bydd fy sketchbook yn cychwyn cael ei lenwi gyda dŵdls, diagramau a rhestrau diddiwedd!

Weithiau bydd delwedd ar gyfer cymeriad yn glir yn fy mhen ac mi wna i

gychwyn yn syth ar gerfio'r polystyren. Dro arall mi wna i weithio'r siâp allan drwy wneud cyfres o frasluniau a dewis fy ffefryn. Bydd y siâp wedyn yn cael ei orchuddio gyda haenau o bapur brown a glud, paent a farnish. Y peth dwi'n ffeindio'n hudolus ydi cychwyn efo disgrifiad o gymeriad sydd ddim yn bodoli eto, a dod â hwnnw'n fyw - fel Frankenstein!



efadyfan.com // @EfaDyfan // @efadyfan (Instagram)

Mae cynhyrchiadau a weithiodd Efa arnynt yn cynnwys *Bwystfilod* (Theatr Bara Caws 2017) a *Raslas Bach a Mawr* (Theatr Bara Caws 2016).

# AILBOBI JONES

Ein hail-bobydd diweddaraf ydi **Llio Mai**, sydd ar hyn o bryd yn cwblhau PhD yn astudio agweddau ar theatr Gymraeg rhwng 1945 a 1979. Bwrw golwg ar fywyd a gwaith **Huw Lloyd Edwards** (1916 - 1975) a wnaiff Llio yn y golofn hon.

## LLIO MAI

### HUW LLOYD EDWARDS: DRAMODYDD, CARTWNYDD A BENTHYCIWR TROWSUS

**Wrth drafod y theatr neu'r ddrاما Gymraeg, dwi'n siŵr fod y mwyafrif ohonoch yn gyfarwydd â Saunders Lewis, John Gwilym Jones, Gwenlyn Parry a Wil Sam. Ond tybed faint ohonoch sy'n gyfarwydd â Huw Lloyd Edwards?**

Doeddwn i ddim yn gwybod amdano nes imi astudio modiwl Y Theatr Gymraeg Fodern yn y Brifysgol ym Mangor. Perodd gryn syndod imi fod dramodydd mor gynhyrchiol wedi llwyddo i ddisgyn trwy'r rhwyd yng nghyswllt ein haddysg a'n gwybodaeth gyffredinol am hanes a thraddodiad y theatr a'r ddrاما Gymraeg.

Pwy oedd Huw Lloyd Edwards felly? Pam nad oes llawer o'r genhedlaeth ifanc yn gwybod amdano a pham ei fod yn haeddu sylw a chydnabyddiaeth?

Ganwyd Huw Lloyd Edwards ym Mhenisa'r Waun, Deiniolen, ym 1916. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Brynrefail, ac yna yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, a Choleg Mihangel, Llandaf. Ym 1939 dechreuodd astudio Diwinyddiaeth gyda'r bwriad o fynd yn offeiriad, ond bu'n rhaid iddo adael ei gwrs yng Ngholeg Mihangel ar ei hanner oherwydd salwch. Derbyniodd waith fel swyddog llety i'r faciŵs dros Gyngor Gwyrfa'i ac Arfon ym 1941, cyn cael swydd fel ystadegydd gyda chwmmi olew Anglo-Iranian a symud i Lundain i weithio. Yno bu'n cyd-letya gyda neb llai na Richard Burton. Dywedir i Huw Lloyd Edwards roi benthyg ei drowsus gorau iddo fynd i gyfweliad pwysig – trowsus na welodd byth wedyn gan i Burton gael y rhan. Gadawodd Lundain a symud i Oxey yn Watford ar ôl priodi ei wraig Jane ym 1944 a chael gwaith gyda chwmmi yswiriant Guardian. Wedi cyfnod yno, penderfynodd y ddau ddychwelyd i Gymru, ond nid cyn i Huw Lloyd Edwards fynychu Coleg Ymarfer Dysgu Gaddesden yn Berkhamstead. Bu'n gweithio fel athro Saesneg yn Ysgol

Dyffryn Nantlle, Caernarfon am bymtheng mlynedd, cyn cael ei benodi yn Ddarlithydd yn Adran Ddrama'r Coleg Normal ym Mangor. Erbyn hyn roedd ganddo ef a'i wraig ddwy o ferched, Ann ac Eleri Llwyd.

Fel darlithydd a dramodydd y caiff ei adnabod, ond roedd ganddo ystod eang o ddiddordebau. Hoffai ddysgu ieithoedd megis Groeg a Ffrangeg, a gallai siarad Sbaeneg yn rhugl. Roedd yn canu gyda'r côr lleol, yn creu gwin cartref, yn coginio bwydydd megis cyri a lobsgows a hoffai fod yn greadigol gyda'i ryseitiau. Gallai hefyd arlunio, a chanolbwyntia'i'n benodol ar greu lluniau dyfrlliw a chartwnau o gymeriadau ffuglenol fel Bogo'r Bwgan Brain ond hefyd o gymeriadau go iawn. Er iddo ddiodeff sawl cystudd, roedd yn ŵr hynod o ddigrif, yn llawn hiwmor a direidi. Byddai'n hoff o dynnu coes ei gyfeillion ac roedd yn un am chwarae triciau, gan chwerthin wedyn nes y byddai'n sâl ar draul y sawl a lwyddodd i'w dwyllo. Adlewyrchir yr elfen hon o'i gymeriad yn ei ddramâu, yn ei gomedïau cynnar ond hefyd yn ei ddramâu diweddarach megis *Pros Kairon* a'r *Llyffantod*. Bu hefyd yn gyfrifol am y gyfres o sgetsys rhwng Charles Williams a Ryan Davies ar raglenni *O Lan i Lan*, BBC Cymru, pryd y lluniodd y frawddeg 'feri heili pethma' a ddaeth yn arferiad llafar trwy Gymru gyfan.

Ni cheir y digrif heb y dwys, ac roedd gan Huw Lloyd Edwards ochr ddifrifol. Amlygir yr ochr hon yn ei ddramâu hefyd. Dioddefai o iselder ar brydiau, a hynny o ganlyniad i'w iechyd a'r meddyginiaethau. Mae'n debyg y bu i hyn gyfrannu at yr elfennau dwys a geir yn ei ddramâu diweddaraf a chredaf mai'r cydbwysedd rhwng y dwys a'r digrif sy'n golygu fod ei ddramâu yn cael cystal effaith ar y gynulleidfa. Mewn teyrnged iddo, nododd ei gyfaill a'i gyd-ddramodydd Gwenlyn Parry:

Poenai am ddiodeffaint dynoliaeth fel pe bai'n poeni am ei blant ei hun. 'Roedd meddwl am rhywun arall mewn poen yn ei gynhyrfu hyd at ddagrau, a phwy yn well na Huw oedd yn gwybod sut 'roedden nhw'n teimlo. Hyd yn oed anifeiliaid mewn poen.

'Roedd hynny yn ei frifo'n fwy na dim. Unwaith erioed y gwelais i Huw yn gwylltio go iawn, a hynny am fod rhywun yn camdrin ci.

'Dwi'n cofio Jane hefyd yn dweud iddo neidio i wddw rhyw dincar un tro am fod hwnnw'n curo ei geffyl.<sup>1</sup>

Gwelir yr elfen ofalgar hon yn y rhan helaethaf o'i brif ddramâu, ac yn arbennig yn *Pros Kairon*.

Wedi symud yn ôl i Gymru y dechreuodd Huw Lloyd Edwards ysgrifennu dramâu ysgafn ar gais Cwmni Drama Llannerch-y-medd. Comedïau oedd y dramâu hyn a daethant yn boblogaidd iawn gyda'r Cwmni'n eu perfformio ar hyd a lled gogledd Cymru. Cyhoeddwyd *Yr Orffiw*s, drama a chomedi gyntaf Huw Lloyd Edwards ym 1954, *Llwyn Brain* ym 1955, cyn cyhoeddi *Y Gŵr Drwg* ym 1956. Er mai diddanu ac adlonni cynulleidfa yw prif bwrpas y dramâu hyn, o dan yr wyneb, roedd neges yn perthyn i bob un. Wrth i'r dramodydd sylweddoli fod ganddo'r ddawn i adlonni cynulleidfa, daeth hefyd i sylweddoli bod modd iddo ddefnyddio'r ddawn honno i gael pobl i feddwl. Ysgrifennodd y ddrاما fer *Noson o Lety* ym 1955, sy'n ddrاما fwy uchelgeisiol. Ynddi gwelwn awgrym o'i ddiddordeb mewn moeseg a dyngarwch am y tro cyntaf, themâu a fyddai'n dod yn amlwg iawn yn ei weithiau diweddarach.

Nid oedd yn hyderus iawn yn ei ddramâu ar yr adeg hon yn ei yrfa. Yn y cyswllt hwn bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn hanfodol bwysig ac yn gyfrifol am roi'r hwb iddo symud oddi

wrth y comedïau cynnar at ddramâu hirion a ganolbwyntiai ar bynciau mwy cyfoes a difrifol. Derbyniodd yr ail wobwr yng nghystadleuaeth y ddrama wreiddiol un act yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr, 1956 gydag *Ar Ddu a Gwyn* cyn derbyn y wobwr gyntaf am *Cyfyng-gyngor* yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy 1958. O'r cyfnod hwn ymlaen y gwelwn Huw Lloyd Edwards yn datblygu i fod yn un o brif ddramodwyr y theatr Gymraeg, a'r dramâu hyn a berodd i J. Ellis Williams ei ddewis fel un o ddramodwyr Cymraeg pwysicaf y cyfnod yn y gyfrol *Tri Dramaydd Cyfoes* (1961). Aeth Huw Lloyd Edwards ati i lunio dramâu a drafodai themâu blaengar ac amrywiol; daeth ei hoffter o ddefnyddio straeon Beiblaidd fel sail i'w waith yn amlwg; dechreuodd arbrofi â ffurfiau ac arddulliau gwahanol; ac fel yr â'r dramâu rhagdynt gwelir iaith y ddeialog yn ystwytho ac yn newid o fod yn ffurfiol a safonol i fod yn fwy naturiol a llafar.

Ymysg rhai o'i ddramâu diweddarach mae *Y Gŵr o Gath Heffer* (1958) sydd wedi'i seilio ar stori Jona o'r Beibl, *Y Gŵr o Wlad Us* (1960), sy'n defnyddio stori Job o'r Beibl i gyflwyno beimiadaeth ar y Gymru gyfoes, ac *Y Lefiathan* a gafodd ei chyhoeddi ym 1977, ar ôl marwolaeth yr awdur, sydd eto'n defnyddio Llyfr Jona, ond y tro hwn er mwyn cynnig sylwadau ar ein byd modern.

Y mae *Ar Ddu a Gwyn* yn un o'i ddramâu pwysicaf am ei bod yn arwyddo'r newid ynddo o fod yn ddramodydd comedïau ysgafn i fod yn ddramodydd difrifol ac yn arddangos ei feiddgarwch o ran themâu. Drama am ragfarn hiliol yn Ne Affrica yw *Ar Ddu a Gwyn*. Apartheid ydi'r pwnc dan sylw ynddi, ac mae'n braf gweld fod dramodydd o'r cyfnod yn hyderus fod modd trafod pwnc rhyngwladol a chyfoes mewn drama Gymraeg. Roedd Huw Lloyd Edwards yn flaengar iawn wrth fentro i faes apartheid a chyflwyno'r pwnc, yn enwedig am fod y protestio a'r gwrthryfelâ'n dal yn eu dyddiau cynnar, a dim ond blwyddyn wedi mynd heibio ers i Rosa Parks wrthod ildio'i sedd ar y bws i berson gwyn a rhoi cychwyn ar gyfnod newydd o frwydro am hawliau cyfartal yn America. Cyfrannodd y ddrama at greu uchelgais newydd i'r ddrama Gymraeg.

*Pros Kairon* yw un o ddramâu mwyaf poblogaidd Huw Lloyd Edwards. Profodd gryn lwyddiant pan berfformiwyd hi yn Dundalk, Iwerddon ac yn Detroit, yr Unol Daleithiau gan gwmni

Theatr Fach Llangefni ym 1975 gan dystio i'w hapel eang a rhyngwladol.

Problemau'r ddynoliaeth a drafodir yn *Pros Kairon*, ac fel gyda'r mwyafriaf o'i ddramâu, ariangarwch, materoliaeth a moeseg yw'r prif themâu. Dyma un o'r dramâu sydd â stori Feiblaidd yn sail iddi, Gardd Eden y tro hwn. Yn wahanol i'r dramâu blaenorol, gwneir defnydd o rai o nodweddion Theatr yr Abswrd yn *Pros Kairon*, ac yn bennaf y defnydd o symbolaeth ac alegoriau. Ychwanega hyn at y ffaith nad oes modd rhoi unrhyw label pendant ar Huw Lloyd Edwards fel dramodydd gan ei fod yn arbrofi â sawl ffurf ac arddull. Nid yw fel petai'n dilyn nac yn perthyn yn iawn i'r un mudiad, ac mae'n bosib y bu i hyn ychwanegu at y diffyg sylw a gwerthfawrogiad a gafodd fel dramodydd. O'i holl ddramâu, *Pros Kairon* fyddai'r hawsaf i'w haddasu a'i hailgyflwyno heddiw oherwydd ei themâu a'i neges sy'n berthnasol i bob oes. Y neges a geir ar y diwedd yw'r un neges a gawn ar ddiwedd bron pob un o'i ddramâu, sef bod gobaith i ddynoliaeth ac mai'r genhedlaeth nesaf yw'r gobaith hwnnw.

Drama cwbl wahanol i'w ddramâu eraill yw *Y Llyffantod*, ac eithrio ei ddrama olaf, *Y Lefiathan*. Cynnig sylwadau ar fywyd gwleidyddol Cymru a wna'r dramodydd y tro hwn, a hynny gan ddefnyddio hen gomedï Roegaidd Aristoffanes, *Y Llyffantod*, fel templed. Nid yw wedi glynu'n gaeth at y ddrama wreiddiol ond defnyddia strwythur, teitl a lleoliad y ddrama wreiddiol, a hynny er mwyn cyflwyno stori gyfoes sy'n alegori o sefyllfa Cymru'r 1970au. Ceir yn y ddrama hon gofnod hanesyddol pwysig o broblemau'r cyfnod a'r hyn oedd yn poeni'r Cymry, megis diweithdra a thlodi. Dyma hefyd un o unig ddramâu'r cyfnod sy'n cynnig sylwadau ar Gymru a'i dyfodol a hynny ar adeg bwysig yn ein hanes gan fod Refferendwm Datganoli i Gymru ar y gorwel. Roedd hon yn ymgais amlwg gan Huw Lloyd Edwards i geisio deffro'r Cymry o'u trwmgwsg a'u difaterwch a'u hannog i weithredu er mwyn sicrhau tynged eu hiaith a'u hetifeddiaeth.

Bu farw Huw Lloyd Edwards ym 1975 yn 59 oed a hynny'n dilyn cyfnod arall o salwch. Roedd ei gyfraniad i fydd y theatr Gymraeg yn amhrisiadwy, a chyfrannodd yn helaeth hefyd at raglenni radio a theledu. Y mae'n debyg na dderbyniodd y sylw haeddiannol am ei fod yn cydoesi â rhai o fawrion eraill y

theatr Gymraeg, megis Saunders Lewis, John Gwilym Jones a Gwenlyn Parry, a'i fod, o bosib, yn cael ei esgeuluso oherwydd y sylw mawr a dderbyniodd y dramodwyr rheiny. Yn sicr, mae Huw Lloyd Edwards yn ffigwr pwysig a dylanwadol yn hanes y theatr Gymraeg. Bu i'w weithiau fraenaru'r tir i eraill fentro i dir anghyffredin ac i arbrofi, a thystia Gwenlyn Parry iddo fo yn ddylanwad mawr arno ef a'i waith. Dyma ddramodydd sy'n bendant yn haeddu cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel un o ffigyrau pwysicaf y ddrama a'r theatr Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif.

Os yw'r darn hwn wedi ennyn eich diddordeb yng ngwaith Huw Lloyd Edwards mae nifer o'i ddramâu bellach ar gael i'w darllen trwy Lyfrgell Y Porth ac mae gan Dr. Manon Wyn Williams ysgrif gryno a chynhwysfawr am ei ddramâu yn *Ysgrifau Beirniadol XXXIV* a fyddai'n ddefnyddiol iawn i unrhyw un sydd eisieu trosolwg o'i waith.

<sup>1</sup> LLGC, Papurau Gwenlyn Parry, 7. Papurau Personol, 7/3 Teyrnged i Huw Lloyd Edwards.

**\*am ein bod ni braidd yn dlawd, yn anffodus doedd dim modd fforddio talu i ddefnyddio'r lluniau arbennig o Huw Lloyd Edwards o gasgliad Geoff Charles, LLGC. Os am weld y lluniau hynny, dilynwch y ddolen isod - Gol.**



**Darn o waith, ffigwr penodol neu faes sydd wedi cael cam yn hanes creadigrwydd neu lenyddiaeth Gymraeg? Wedi eu hesgymuno o'r canon yn anheg? Wedi eu hanghofio?**

Pwy hoffech **CHI** weld eu bywydau a'u gwaith yn cael ei ailbobi?

[golygyddion.ystamp@gmail.com](mailto:golygyddion.ystamp@gmail.com)  
**@ystampus**

## ALED LEWIS EVANS

### KARAOKE

Mae nghalon ar y karaoke heno,  
yno yng ngwe'r geiriau,  
yno ym mreuddwydion afreal  
y caneuon lle gwireddir gobeithion.

Mae nghalon ar y karaoke heno  
yno yn dyheu wrth daflu lleisiau  
i wagle'r dafarn.

Gweld fod fy stori yn wahanol  
i ddelfrydiaeth y geiriau,  
ond dyheu yn dawel heno  
mai'r gân fydd fy hanes i.

*"I will do anything for love ..."*

*"I will always love you ..."*

dim cysur heno,  
a thaith adre yn y glaw toc  
at realaeth.

Does dim galw am galon sy'n gignoeth  
ar y karaoke heno.

Pawb isio hapusrwydd  
wedi ei barselu'n barod.

Nid y gwacter hwn  
o galon yn torri  
yng ngeiriau'r karaoke.

Y geiriau ddim yn cyffwrdd gwres dy lygaid heno,  
fel lleisiau sigledig karaoke  
yn ceisio cyrraedd y nodyn sy'n y sêr.



# ADOLYGIADAU

GWILYM BOWEN RHYS | JENNIFER BELL  
BETH CELYN | GWENNI JENKINS JONES | CADI DAFYDD

## CYFANSODDIADAU

Eisteddfod Genedlaethol  
yr Urdd Brycheiniog a  
Maesyfed 2018

Yr Urdd ~ £6.00



Er bod nifer fawr o ddarnau arbennig i'w canfod rhwng cloriau Cyfansoddiadau Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed, penderfynais ganolbwyntio'n

bennaf ar y prif gystadlaethau.

Trof yn gyntaf at gystadleuaeth y gadair a chasgliad Osian Owen o bum cerdd yn trafod perthynas. Er nad yw'r thema ei hun yn torri tir newydd, llwydda'r cerddi i'n cyffwrdd a hynny drwy ddefnydd celfydd o drosiadau, megis 'corwynt o hogan,' a 'choesau cam babi jiraff.' Mae'r dweud yn syml, ac mae gallu'r darlennydd i uniaethu â'r profiadau yn y cerddi yn rhannol gyfrifol am eu llwyddiant. Bron bod adlais o gerddi serch cwrtais yr Oesoedd Canol yma, wrth i'r bardd syllu ar y ferch, sydd yn anghyraeddadwy iddo ar y dechrau, o bellter. Daw'r casgliad i ben gyda thair llinell fer: 'Ogla 'stalwm. / Ogla / rŵan,' gan blethu'r holl ddarn gyda'i gilydd mewn ffordd naturiol.

Wedi gweld darn o waith buddugol Erin Hughes, enillydd y goron, yn cael ei adrodd yn ystod y seremoni roeddwn yn frwd i'w ddarllen yn ei gyfanrwydd. Weithiau mae rhywun yn darllen darn ac yn teimlo'i hun yn cael ei lenwi gan y geiriau, ac mi fydda i yn eistedd yno'n llawn o'r geiriau a'r teimlad am gyfnod. Dyma ddigwyddodd i mi wrth ddarllen y ddau ddarn, yn enwedig 'Du a Gwyn'. Mae dawn Erin wrth drin geiriau yn gwbl amlwg, a'r dweud yn llifo'n naturiol drwyddi draw wrth iddi bersonoli iselder drwy gymeriad Du. Disgrifir ymweliadau Du mewn modd onest, ac mae'r disgrifiadau'n aros yn y

cof. Er enghraifft, 'mae o'n rhwygo'r drws yn grystia efo'i ddwylo, a thresmasu i mewn gan chwydu'r drwg yn un pwll i bob cilfach.' Drwy ddefnydd o gymariaethau a throsiadau cain daw llais Erin fel awdur yn un unigryw, ac mae'r defnydd o olau Gwyn sy'n dod i lyncu'r Du yn y diwedd yn ysgytwol.

Sonnir yn yr ail ddarn, 'Dau aderyn', am fam a mab yn gwylio dyn yn neidio o'r un o'r tyrrau a ddisgynnodd yn Efrog Newydd. Y tad yw'r dyn hwnnw, ac effaith hyn ar y fam i'w canolbwynt y darn. Digon hawdd fyddai i awdur llai aeddfed fynd ar goll wrth ymdrin â phwnc mor fawr, ond drwy ei drafod o safbwynt un teulu ni ddigwyddodd hynny. Dyma ddau ddarn yr wyf wedi eu darllen sawl gwaith erbyn hyn gan deimlo efo'r cymeriadau dro ar ôl tro, a'r teimlo yma sydd yn dyst i'w llwyddiant.

Cawn yn nrama fuddugol Mirain Alaw Jones, 'Dadrith', dair merch ar drothwy eu bywydau ym mhrifysgol, a llwydda'r dramodydd i gyfleu bywydau pobl ifanc i'r dim. Drwy'r tair merch, sydd yn sgwrsio drwy gyfryngau cymdeithasol, mae'r ddrama yn cyffwrdd â sawl thema ddifrifol er bod y sgysiau'n ymddangos yn ddiniwed ar yr olwg gyntaf. Mae'r diffyg ymddiriedaeth rhwng y tair merch, sy'n hanu o'n dibyniaeth ar gyfryngau cymdeithasol, a'n diffyg ymddiriedaeth ni fel cynulleidfa yn y cymeriadau yn creu amwysedd, ac yn gwneud i ni deimlo'n anesmwyth yng nghwmni'r merched. Ni wyddwn yn llawn pwy yw pwy, na phwy sy'n onest. Llwydda'r ddrama i gynnal ein sylw, ac mi fyddai'n dda ei gweld yn cael ei pherfformio ar lwyfan.

Mae'n werth darllen yr holl waith sydd yn y Cyfansoddiadau, gan daro golwg ar yr holl waith buddugol.

### ! ADOLYGWYR !

Awydd dweud eich barn yn ddi-flewyn ar dafod am gynnyrch newydd Cymraeg - yn ddramâu, yn nofelau, yn gyfrolau barddoniaeth, yn gelf? Cysylltwch â ni!

## GLOBE ON TOUR

Shakespeare's Globe

Mai - Medi 2018

### CAST

Luke Brady, Steffan Cennydd, Cynthia Emeagi, Colm Gormley, Sarah Finigan, Russell Layton, Rhianna McGreevy, Jacqueline Phillips

Cyfarwyddwr: Brendan O'Hea

### Adolygydd 1

*The Merchant of Venice*  
(Pontio, Bangor)

Wrth wyllo unrhyw ddrama fyw draddodiadol, yn enwedig os yw'n ddrama Shakespeare, un o'r pethau cynta sy'n fy nharo ydi'r gwaith dysgu geiriau mae'r actorion 'di gorfod gwneud, cyn hyd yn oed dechrau ymrafael â haenau'r cymeriadau a'u dadansoddi. Y peth hynod am y cynhyrchiad a'r daith hon yn benodol oedd bod gan yr wyth actor DAIR drama cyfan yn eu pen! - *The Taming of the Shrew, Twelfth Night* a *The Merchant of Venice*, a'r gynulleidfa oedd yn penderfynu pa ddrama oeddynt am ei weld ar y noson drwy gystadleuaeth gymeradwyo. 'Merchant of Venice' aeth a hi tro'ma, a wir i chi, dechreuodd yr olygfa gynta prin deg eiliad wedi'r penderfyniad gael ei wneud! Mae'n anodd i mi ddychmygu'r *tempest* ym mhenau'r actorion cyn y sioe (joc wael, soz) a phrin 'di gael cyfle i anadlu cyn plymio mewn i'r ddrama.

Mae'r ddrama hon yn un digon heriol i gynulleidfa gyfoes, gyda hiliaeth yn thema amlwg, yn benodol, yn erbyn Shylock, Iddew a benthyciwr arian. Ond mae Shakespeare yn dda iawn am roi ei hun yn sgidiau unrhyw un, fel mae araith fythol-berthnasol Shylock yn ei amlygu - "Hath not a Jew eyes? Hath not a Jew hands? Organs, dimensions, senses,

affections, passions? Fed with the same food? . . . Warmed and cooled by the same winter and summer as a Christian is? If you prick us, do we not bleed? If you tickle us, do we not laugh? If you poison us, do we not die?"

Roedd cyflwyniad y cwmni yn safonol iawn gyda pherfformiadau Jacqueline Phillips (Portia) a Sarah Finigan (Shylock) yn hynod. Braf iawn hefyd oedd gweld gwyneb cyfarwydd Steffan Cenydd, aelod o'r band roc Bromas o Gaerfyrddin. Mae'i flynyddoedd o brofiad ym merw gwyllt byd y llwyfan yn Llundain yn amlwg i'w weld o'i berfformiad aeddfed, medrus a hyblyg (roedd o'n actio pedwar cymeriad gwahanol a chanu'r gitâr a'r sacsoffon hefyd!).

Oherwydd natur arbrofol y daith, lle nad oes gan y cwmni syniad pa ddrama maent ar fin ei pherfformio o noson i noson, syml iawn oedd y set a'r gwisgoedd. Sgaffaldau a planciau plaen oedd y set, fel 'swm i'n ddychmygu y bysa 'build your own 17<sup>th</sup> century mobile stage' yn edrych. A gan i'r actorion orfod newid o un cymeriad i'r llall mor gyflym ac aml, dim ond het neu siaced wahanol oedd y gwahaniaeth rhwng dau gymeriad. Wrth gwrs, dyma lle mae dawn yr actor yn amlygu ei hun, gyda acenion gwahanol yn gymorth amhrisiadwy a digon diddanol, ac mae'n anodd gweld edrychiad ffwrdd-a-hi y cynhyrchiad fel gwendid.

Mae'r ddrama hon wastad yn peri i'r gynulleidfa ystyried yn ddwys natur hil a hiliaeth, a'u perthnasedd i ni heddiw. Ges i fy mhlesio'n fawr gan y cynhyrchiad, ond bron nad oedd y geiriau natho nhw ddim eu dweud yn fwy *impressive*. Gallu'r actorion i actio unrhyw un o dair drama Shakespeare *jyst felna* oedd wedi fy syfrdanu, bron yn fwy na'r perfformiad ei hun.

## Adolygydd 2

*The Taming of the Shrew*  
(Pontio, Bangor)

**Anaml iawn yr ydych yn cymryd sedd mewn theatr heb wybod yn iawn pa ddrama sydd ar fin cael ei pherfformio** ond dyma'n union a ddigwyddodd i mi pan es i i weld 'Shakespeare's Globe on Tour' ym Mhontio fis yn ddiweddar. Ni, y gynulleidfa, oedd yn gyfrifol am ddewis pa gampwaith fyddai ar y llwyfan y noswaith honno ac roedd yr adeilad yn

llawn cynnwrf wrth i bobl drafod eu ffefrynnau o blith y tair drama ar gynnig: *Twelfth Night*, *The Taming of the Shrew* a *The Merchant of Venice*.

Ar ôl ennill y bleidlais perfformiwyd *The Taming of the Shrew*, comedi ddadleuol sy'n ymwneud ag ymdrechion y cymeriad Petruchio i ddofi'i wraig a'i gwneud yn ufudd ac ymostyngol iddo. Fel ffeminist, roedd gweld sut oedd disgwyl i fenywod ymddwyn yng nghymdeithas batriarchaidd cyfnod Shakespeare yn brofiad eithaf anghyfforddus ond yr eironi yw bod y ddrama, yn anffodus, yn berthnasol i ni heddiw. Does dim ond rhaid i mi gyfeirio at y mudiad 'me too' ac 'upskirting' er mwyn dangos bod rhywiaeth yn broblem gyfoes ac oherwydd hynny, rydw i'n falch bod y cynhyrchwyr wedi cynnig y ddrama hon i'r gynulleidfa.

Er gwaethaf y thema ddadleuol, comedi yw *The Taming of the Shrew*, ac roedd yna ddigon o hiwmor i gyferbynnu â'r difrifwch achlysurol. Roedd cellwair a slapstic yr actorion wedi'u hamseru'n berffaith ac ychwanegwyd at yr ysgafnder gan ysbeidiau o ganu a pherfformio. Braf oedd clywed cerddoriaeth fyw a synnais yn fawr pan ddysgais, ar ôl gadael y theatr, fod ambell actor wedi dysgu chwarae ei offeryn yn unswydd ar gyfer y cynhyrchiad hwn. Yn wir, roeddwn i wedi fy rhyfeddu'n llwyr gan dalentau'r cast. Andros o fenter yw dysgu chwarae offeryn newydd yn *ogystal* â dysgu tair drama ar y cof, yn enwedig o gofio bod gan yr actorion sawl rôl wahanol o fewn pob drama.

Er i ambell un faglu dros eu llinellau unwaith neu ddwy, roedd y project yn un llwyddiannus yn fy marn i. Credaf, ar ôl paratoi a theithio gydag mwy nag un ddrama, nad oedd yr actorion wedi blino ar *The Taming of the Shrew*, a theimlai'r perfformiad yn ffres a bywiog. Er i mi ofni na fyddwn yn deall yr iaith flodeuog, golygai'r llefaru clir a'r actio proffesiynol fod ystyr ac ergyd y ddeialog yn hollol eglur a bod modd i mi ymlacio a mwynhau'r perfformio. Cafwyd portread arbennig o Katherina gan Rhianna McGreevy er enghraifft, yn enwedig yn ei haraith ddiryngol ar ddiwedd y ddrama. Rhaid canmol Cynthia Emeagi hefyd am droi'r traddodiad Shakesperaidd ar ei ben trwy gymryd rôl y cymeriad gwrywaidd Baptista a gosod ei stamp unigryw arno.


O ran llwyfannu, fe wnaeth y cyfarwyddwr gadw'n driw at arddull y

cyfnod gan efelychu llwyfan Theatr y Glôb yn Llundain gyda balconi ac ambell ddrws yn y wal gefn. Prin iawn oedd y defnydd o brobiau hefyd ond ni wnaeth y symrlwydd dynnu oddi ar y perfformiad. Fe wnaeth yr actorion ddefnydd mawr o'r gwagle ac roedd yna ddigon o wybodaeth yn y ddeialog i awgrymu lleoliadau'r golygfeydd.

Profiad gwefreiddiol oedd gweld 'Shakespeare's Globe on Tour', ac er nad oes modd i mi addo y gwelwch chi'r un ddrama â mi, rydw i'n argymhell i bawb fynd i weld un o'r cynyrchiadau os yn bosib.

## HOMETOWN TALES: WALES

Eluned Gramich  
Tyler Keevil  
Orion ~ £9.99



**Mae'r tŷ cyhoeddi yn disgrifio'r gyfres *Hometown Tales* fel dathliad o amrywiaethau rhanbarthol gan dathlu ardaloedd fel Lancashire, Birmingham a Yorkshire i enwi**

dim ond tair. Mae'r llyfr *Hometown Tales: Wales* yn sicr yn denu gyda'i glawr coch, darluniau a'r addewid o straeon byrion cyffrous, ond siom yw gweld Cymru gyfan yn cael ei chategoreiddio fel ardal ac nad yw ei hardaloedd amrywiol fel gwlad yn cael eu dathlu. Mae'r llyfr hwn yn ymddangos fel dathliad o Ganolbarth Cymru gyda stori Tyler Keevil, 'Last Seen Leaving' wedi'i lleoli, braidd yn amwys, mewn tref yn 'Mid Wales' a stori Eluned Gramich 'The Lion and the Star' wedi'i lleoli, yn llawer mwy cartrefol, yn Aberystwyth.

Gan ddechrau gyda stori Tyler Keevil, awdur o Ganada sydd bellach wedi sefydlu yng Nghaerdydd, caiff 'Last Seen Leaving' ei disgrifio gan W&N fel 'gripping account of the days following the disappearance of a local man'. Ni chawn argraff clir o unrhyw ardal neu dref benodol yng Nghanolbarth Cymru a chefais beth trafferth, yn bersonol, i uniaethau hefo'r protogydd, Canadiad di-enw sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru gyda'i wraig, Mari. Ymddengys fod y protogydd yn cymysgu'r

ansoddeiriau 'British' a 'Welsh' drwy'r stori gan roi mwy o sylw, ar brydiau, i rinweddau Prydeinig yn hytrach na Chymreig. Cawn, fel enghraifft, gyfeiriadaeth at ymadroddion Prydeinig fel "stiff upper lip ... a very British phrase" ymysg eraill. Mae awgrym fod ei wraig, Mari, yn siarad Cymraeg, ond nid yw hyn yn hollol glir, ac ystrydebol braidd yw ei gyfeiriadau at elfennau Cymreig. Siom hefyd oedd gweld camgymeriad ieithyddol a golygyddol amlwg iawn wrth i'r protagonydd ddisgrifio'r arwydd "Croeso Y Cymru" (yr 'Y' yn amlwg wedi'i gymysgu a'r 'l' ar yr arwydd 'Croeso i Gymru' a'r 'Cymru' heb ei dreiglo) wrth groesi'r ffin gyda'i wraig. Er gwaethaf hyn mae'n stori reit afaelgar ac mae blas da ar ambell thema amserol wrth i'r holl gymeriadau chwilio am y gŵr coll, fel y modd y mae merched yn cael eu portreadu, a hyn trwy bortread y cymeriad hyderus, a deniadol, Branwen. Ond rhaid cyffesu mai rhwystredig, ar y cyfan, oedd y profiad darllen i mi.

Pwrpas arall i'r gyfres

Hometown Tales yw paru lleisiau newydd gydag awduron mwy sefydledig. Rhaid gofyn y cwestiwn felly, pam y dewiswyd awdur Canadiad fel awdur sefydledig i gynrychioli Cymru? Fodd bynnag, Eluned Gramich yw llais newydd y gyfrol hon, awdures a chyfieithydd Gymraeg-Almaeneg o Hwlfordd, ac mae ei llais yn serenennu. Chwa o awyr iach yw'r stori 'The Lion and the Star', ac mae'r teitl ei hun yn chwarae hefo enwau'r ddau brif gymeriad, sef Seren a Llew. Dyma stori ddiddorol a ffraeth sydd yn chwarae hefo geiriau a ieithoedd drwyddi mewn modd nad yw'n dieithrio'r Gymraeg, ond yn hytrach, yn ei gwneud yn fwy hygyrch. Seren yw enw'r protagonydd, hipi sy'n byw yng Nghae Manon ger Aberystwyth. Er ei henw Cymraeg nid Cymraes yw Seren, ond mae ei chwilyfrydedd fel cymeriad, a'r modd mae Eluned Gramich yn gwreiddio'r stori yn yr ardal leol, yn golygu ein bod yn cael blas da, os nid unigryw, o Aberystwyth a'r haenau cymhleth o Gymreictod a fodola yno.

Gosodir y stori yn 1972. Dyma, wrth gwrs, oedd cyfnod y protestiadau iaith adnabyddus ac mae Seren yn digwydd dod ar draws gwrthdystiwr Cymraeg. Does ganddi hi ddim syniad beth mae o'n protestio yn ei erbyn gan nad yw hi'n deall y geiriau Cymraeg ar ei faner, ond er gwaethaf hyn, mae Seren yn dal i'w helpu a'i thaith hi wrth helpu'r gŵr hwn, sef Llew, yw'r stori hon. Caiff y stori ei rhannu yn benodau byrion gyda


theitlau megis 'Cooper's Arms', 'Lan y Môr' a 'Giant' yn gwreiddio'r stori yn Aberystwyth ac mewn chwedloniaeth. Anodd iawn yw rhannu fy ngwerthfawrogiad o gyfoeth 'The Lion and the Star' heb sbwylio'r naratif a'ch profiad darllen chi, ond yn sicr, mae werth prynu *Hometown Tales: Wales* er mwyn darllen y stori arbennig hon. Cefais fy hudo yn llwyr. Does dim dwywaith y bydda i'n cadw llygaid 'barcud' allan am ragor o waith Eluned Gramich yn y dyfodol agos...

"A white bird, long-limbed. She tries to remember its name. It won't come to her now. All she has is *Barcud, Barcud, Barcud* echoing in her head."

## THE MABINOGI

Matthew Francis

Faber & Faber ~ £14.99



**Ail-ddehongliad barddonol o bedair cainc y Mabinogi a geir yn y gyfrol hon.** Ynndi mae Francis yn lwyddo i greu darlun eglur o'r byd y seiliwyd y chwedlau ynddo gan ddarlunio awelon, coed ac anifeiliaid mewn modd naturiol iawn.

Serch hynny, tydi pob dim ddim yn taro deuddeg. Mae Francis yn anwybyddu llawer o nodweddion hanfodol y chwedlau ac yn canolbwyntio yn hytrach ar bortreadau o natur ac anifeiliaid sydd bellach wedi dyddio. Aiff i eithafion i gysylltu Rhiannon gyda cheffylau, arferiad hen-ffasiwn gan fod theorïau'r gorffennol a oedd yn ei chysylltu gydag Epona, duwies cheffylau, bellach wedi eu hen ddisodli. Trwy hyn, mae'n anwybyddu ei nodweddion cyfriniol eraill sydd mor amlwg yn y gwaith gwreiddiol.

Am ba bynnag reswm mae Francis hefyd wedi gosod nodiadau wrth ochr ei gerddi gan gynnig esboniad bach handi ar yr hyn sydd yn digwydd ynddyn nhw. Dyma nodwedd a fyddai'n gweddu i lyfr ysgol, nid llyfr barddoniaeth o'r iawn ryw. Yr awgrym ydi na fydd y darlennydd yn gallu deall a dilyn yr hyn sydd yn

digwydd heb nodiadau, ac os ydi hynny'n wir yna mae'n rhaid gofyn pam y bu i Francis ddewis mynd ati o gwbl: mae cerdd yn adrodd ei hanes ei hun, ac os nad ydi hi'n gallu gwneud hynny yna mae hi'n fethiant.

Y brif broblem gyda'r casgliad hwn serch hynny ydi bod y chwedlau wedi eu sterileiddio. Mae'r Mabinogi wedi ei gysylltu yn anorfod gyda gorffennol Cymru, ei llên gwerin a'i thraddodiadau, ei phobl a'i thirwedd. Siom o'r mwyaf i unrhyw ddarlennydd o ddarlenn yr ail bobiad hwn ydi bod Francis wedi tynnu unrhyw arlliw o Gymreictod o'r cerddi. Cawsai'r enwau Cymraeg hynny sy'n britho'r chwedlau eu gosod o'r neilltu yn ofalus, yr unig un sy'n goroesi ydi Hereford (Henffordd) yn y Trydydd Cainc, a go brin bod hynny'n awgrymu cysylltiad a Chymru. Mae tywysogaethau hynafol Dyfed a Gwynedd wedi diflannu, i'r un man mae'n debyg a Chadarnle Bendigeidfran yn Harlech. Gallai'r cerddi hyn fod wedi eu seilio yn unrhyw le gan ddwyn etifeddiaeth Gymraeg genedlaethol oddi-wrth garwyr y chwedlau gwreiddiol.

Ond nid hunaniaeth Gymraeg sydd ar goll yn y cerddi yn unig. Mae sawl digwyddiad 'ych a fi' wedi eu dileu fel bod Francis a'i fryd ar greu fersiwn 'neis neis' o'r chwedlau. Mae'r bedwaredd Gaiac wedi ei selio ar y rhyfel a luniwyd gan Gwydion, treisio Goewin a llosgach anifeilaidd gorfodedig Gwydion a Gilfaethwy fel cosb. Wrth dynnu hyn yn fwriadol i wneud y stori yn un brafiach mae Francis yn arbed cam y ddau ac yn gosod y bai ar ysgwyddau Arianrhod gan droi Gwydion yn arwr hoffus.

Siom ydi'r gyfrol hon. Caiff ei hagar gyda gobai o weld y Mabinogi wedi ei drawsffurfio i ffurf barddoniaeth ond beth a geir yn hytrach ydi rhyw gysgod di-liw o'r gwreiddiol, un sydd heb gymeriad a dyfnder y chwedlau. Mae syniad modern iawn o hunaniaeth 'Geltaidd' wedi ei osod dros yr hanesion gan ganolbwyntio ar anifeiliaid a natur ar draul pobol a diwylliant. Nid ail-ddehongliad barddonol o rai o straeon hynaf Cymru a geir yma ond yn hytrach fersiwn wedi ei sbaddu ac wedi ei sgwrio o unrhyw hunaniaeth Gymraeg a Chymreig.

***Yn anffodus, oherwydd prinder lle, bu'n rhaid hepgor dau adolygiad o'r rhifyn hwn. Fe'u cyhoeddir ar ystamp.cymru maes o law - Gol.***



# STEFFAN DAFYDD

## ADNABOD YR ARTIST

**Dylunydd graffeg o Gaerdydd yw Steffan Dafydd, arlunydd clawr y rhifyn hwn o'r STAMP.**

Astudiodd Ddylunio Graffeg ym Mhrifysgol Brighton, gan dreulio rhan o'i gyfnod yno yn ymchwilio i ddiwylliant a dylanwad fanzines. Yn ystod y cyfnod, bu hefyd yn dylunio posteri gigs ar gyfer Clwb Ifor Bach.

Ymunodd â thîm Clwb Ifor Bach yn swyddogol yn 2014 fel Dylunydd Graffeg a Swyddog Marchnata. Er bod gweithio mewn swyddfa'n cyfyngu rhywfaint ar ei ysfa greadigol – cyfaddefa bod 'creu gwaith expressive lot anoddach pan ti mewn swyddfa' – mae e hefyd wedi cyd-weithio gyda Gwasg Y Lolfa i greu cloriau *Y Ddyled*, *Taffia a Pyrth Uffern* gan Llwyd Owen ynghyd â'r cyfrolau *Gyrru Drwy Storom*, *Galar a Fi a*

*Codi Llais.*

Ynghyd â hynny, dyluniodd Steffan gloriau ar gyfer labeli Jigcal a Castorp, ac ar gyfer y bandiau Chroma, Cadno ac Y Cledrau.

Yn 2017, ymunodd â stiwdio screenprintio DIY Prinhaus yn Nhreganna. Teimla ei fod yn arbrofi mwy nag erioed wrth greu collages gyda phrint. 'Dwi'n teimlo taw arbrofi a chreu pethe heb gleientiaid yw'r ffordd o gario syniad ymlaen,' meddai Steff. 'Dyma sydd wedi achub fi rhag colli fy niddordeb mewn creu yn llwyr.'

Mae Steffan hefyd yn aelod o'r band Breichiau Hir ers 2008. Deng mlynedd ar ôl iddynt ffurfio a thair blynedd wedi eu EP cyntaf 'Mae'r Angerdd Yma Yn Troi Yn Gas', maent bellach wedi ymuno â label Libertino.



*Menyw yn breuddwydio am ddannedd (Collage)*



*Clawr Mewn Darnau / Halen Breichiau Hir*

Rhyddhawyd sengl ddwbwl – 'Mewn Darnau / Halen' – yn Ebrill 2018 ac mae 'na albwm gyntaf ar y gweill. Dylunia Steff waith celf y band, gan gynnwys crys -T arbennig sydd ar werth drwy eu tudalen Bandcamp.

Ei brosiect diweddaraf yw PENGLOG, sydd yn casglu nifer o'i brosiectau at ei gilydd. Disgrifia'r brosiect fel 'alter ego / brand / platfform / stiwdio / siop / god-knows-what' a'r bwriad yw arddangos yr hyn y mae'n ei wneud yn y Prinhaus, cyhoeddi zines a gwerthu rhai o'i ddyluniadau ar ffurf posteri a nwyddau. Ymhlith *goodies* y siop mae pin enamel arbennig o wyneb Wali Tomos.

Bydd clawr Rhifyn 5 ar gael i'w weld a'i brynu drwy PENGLOG.

# Y CAST

YN NHREFN EU HYMDDANGOSIAD AR Y LLWYFAN

## Steffan Dafydd

@steffdafydd

(Gweler gyferbyn)

## Teleri Lea

Artist o Lanfrothen, Gwynedd sydd newydd symud i fyw yng Nghaerdydd. Mae ei gwaith diweddar yn ymdrin â'r profiad o fod yng nghanol byd natur, ac yn ymchwilio i'r modd y gall golau, llinyn a phapur greu argraff o'r egni sydd i'w gael yn y gwyllt. (tud. 2, 19)

## Llyr Titus (Gol.)

Awdur a dramodydd, un o sylfaenwyr Cwmi'r Tebot, cwmni theatr cymunedol yn Llyn. (tud. 4-5)

## Melangell Dolma

@MelangellDolma

Actores sydd wrthi'n mentro i fyw ysgrifennu, yn arbennig dramâu. Mae hi ar hyn o bryd yn cymryd rhan yng nghynllun Awdur Preswyl Theatr Clwyd a Paines Plough. (tud. 6-8)

## Efa Lois

@EfaLois

rhith.tumblr.com

drudwen.tumblr.com

Mae Efa Lois yn arlunydd sydd wrthi'n astudio gradd March mewn pensaerniaeth. Hi sy'n rhedeg Prosiect Drudwen ac yn arlunio darnau Rhith-ganfyddiad. Yn gynharach eleni, enillodd Ysgoloriaeth Gelf Eisteddfod yr Urdd. (tud. 9)

## Carl Russell Owen

@CarlRussellOwen

Rheolwr marchnata i gwmni theatr Frân Wen - ac yn caru bob eiliad! Dros 20 mlynedd o brofiad yn y maes. Byw yng Nghaernarfon. Yn ymddiredolwr i'r elusen Gafael Llaw, sy'n cefnogi plant gyda chancr. Tad i ddau a gŵr i un. (tud. 10-11)

## Wyn Mason

@WynMason1

Enillydd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod 2015 am ei ddrama *Rhith Gân*. Mae bellach yn fyfyrwr PhD Ysgrifennu Creadigol yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe, ac wrthi'n ysgrifennu mwy o ddramâu. (tud. 12)

## Mari Elen

@marielenjones

dacwmam.wordpress.com

Daw Mari Elen o Harlech ac mae hi bellach yn byw yng Nghwm y Glo. Mae'n gweithio yn Galeri, Caernarfon yn cynnal gweithdai creadigol ac yn rhedeg prosiect Sbarc! (tud. 13)

## Emyr Morris-Jones

@emyrmorrisjones

Bu'n gweithio gyda chriw technegol Cwmni Theatr Cymru o 1974/5 hyd 1981. Bu'n crwydro wedyn â chwmnïau cyn setlo gyda theatr Bara Caws lle mae'n 'dal i joio!' (tud. 14)

## Annes Elwy

@annesel

Actores o Benarth. Wedi iddi radio o Golleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn 2014, mi aeth ymlaen i weithio mewn amryw o theatrau, gan gynnwys y Royal Court yn Llundain, y Manchester Royal Exchange, a'r Bristol Old Vic. Yn fwy diweddar, bu'n gwneud mwy o waith ffilm, gan ymddangos y llynedd yng nghyfresi

*Electric Dreams* i Channel 4, a *Little Women* i'r BBC. (tud. 15)

## Eddie Ladd

@GwenithOwen

Merch i ffarm ger Blaenannerch yng Ngheredigion yw Eddie Ladd ac mae wedi bod yn berfformwraig llwyfan ers 1986. Gweithiodd gyda chwmni arloesol Brith Gof rhwng 1990 a 2000. Mae ffilm a chyfryngau newydd wedi dylanwadu'n fawr ar ei gwaith. Mae'n falch iawn o fod wedi bod yn gyflwynydd ar Fideo 9 yn ystod un o nifer o oesau aur yr SRG. (tud. 16-17)

## Lois Llywelyn

@LoisLlWilliams

Mae Lois yn fyfyrwraig sydd wedi gorffen ei hail flwyddyn yn astudio Ffrangeg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Mae'n dod o Forfa Nefyn, ond mae'n edrych ymlaen at gael treulio ei blwyddyn dramor yn Llydaw o fis Medi ymlaen. Yr hyn sy'n ei diddori fwyaf yw'r theatr, darllen, ysgrifennu a sgysiau dros banded. (tud. 18-19)

## Erin Maddocks

@erinmaddocks

erinmaddocks.com

Mae Erin Maddocks yn gweithio fel cynllunydd gwisgoedd a set ar gyfer y theatr. Yn wreiddiol o Ffestiniog, a bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd via stints yn Leeds, Canada a Siapan. Mae hi hefyd yn gynllunydd a pherchennog label hetiau a phenwisgoedd Madog Millinery. (tud. 20-21, 23)

## Morgan Owen

@morgowen

Bardd yw Morgan Owen a chyfrannwr cyson i gyhoeddiadau Cymraeg. Fe ddaw o Ferthyr Tudful, er y bydd yn symud i Gaernarfon ddiwedd yr haf os daw o hyd i lety! Roedd yn un o 20 awdur o Gymru a oedd yn rhan o gynllun Awduron wrth eu

Gwaith yng Ngwyl y Gelli eleni. Bydd yn cychwyn ar PhD yn Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor fis Medi. Ef yw bardd yr Arddangosfa Bensaerniol yn y Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni. (atodiad)

---

### Megan John

Mae Megan John yn dod o Gaerdydd, ac yn actio, perfformio a gweithio'n llawrydd ym maes y celfyddydau. Mae hi'n gweithio amlaf gyda UCAN Productions, ac wedi bod yn aelod o'r cwmni ers ei harddegau. (tud. 24-26)

---

### Ian Rowlands

Cyfarwyddwr a dramodydd yw Ian Rowlands, ac mae'n byw yng Nghaerfyrddin, Bydd ei gyfres gomedi *Dulliau Chwyldro* am griw o ddysgwyr radical sydd am ddefnyddio ffyrdd eithafol er mwyn creu Cymru newydd i'w chlywed ar Radio Cymru ddiwedd yr haf. (tud. 27-28)

---

### Efa Dyfan

@EfaDyfan  
efadyfan.com

Mae Efa Dyfan yn artist amlgyfrwng o Lanrug ger Caernarfon. Astudiodd ddylunio yng Ngholeg Celf Caeredin cyn dychwelyd yn ôl i Gymru lle cychwynodd ei gyrfa yn y theatr gyda Cwmni Theatr Bara Caws, yn creu props a phypedau. (tud. 29)

---

### Llio Mai

@LlioMai

Myfyrwraig PhD yn Ysgol Y Gymraeg, Prifysgol Bangor yn astudio agweddau ar y theatr Gymraeg rhwng 1945 a 1979. (tud. 30-31)

---

### Aled Lewis Evans

@aledlewisevans

Bardd a llenor sydd yn cael ei gysylltu ag ardal Wrecsam a'r ffin, er iddo dreulio rhannau o'i blentynod ym Maldwyn, y Bermo a Llandudno. Roedd *Llinynnau*, ei seithfed gyfrol unigol â Chyhoeddiadau Barddas ar restr hir Llyfr y Flwyddyn 2017. (tud. 32)

### Gwilym Bowen Rhys

gwilymbowenrhys.com

Canwr o Fethel yn Arfon ydi Gwilym. Trwy hogi ei grefft yn feunyddiol mewn tafarn a gŵyl, mae o jyst abowt yn llwyddo i fod yn gerddor Cymraeg llawn amser. (adolygydd)

---

### Cadi Dafydd

@cadi Dafydd97

Myfyrwraig Llenyddiaeth a Hanes Cymru sydd newydd orffen ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n ymddiddori mewn llên gwerin, yn enwedig chwedlau lleol yn ymwneud â Sir Feirionnydd, yn hoff o 'sgwennu o bryd i'w gilydd, ac mae hi newydd ddechrau casglu cardiau post difyr. (adolygydd)

---

### Beth Celyn

@BethCelyn

Cantores-gyfansoddwraig o Ddinbych ydi Beth Celyn sydd wrthi'n gorffen ei chwrs MA Ysgrifenu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei EP, *Troi* allan ar label Sbrigyn Ymborth ac mae hi hefyd yn aelod o Gywion Cranogwen. Cafodd ei sioe gerdd, *Ker-is* ei berfformio am y tro cyntaf eleni yng Ngaleri Caernarfon. (adolygydd)

---

### Gwenni Jenkins Jones

Mae Gwenni newydd radio o Brifysgol Bangor gyda gradd yn y Gymraeg ac wedi symud nôl i'w chartref yng Nghaerdydd. Mae'n joio sgwennu'n greadigol ac wedi dechrau gweithio ar stori fer ar gyfer cyfrol a fydd yn cael ei chyhoeddi erbyn y Nadolig. (adolygydd)

---

### Jennifer Bell

Myfyrwraig doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor sy'n astudio cwlt seintiau yr Oesoedd Canol cynnar. (adolygydd)

### Miriam Elin Jones (Gol.)

@miriamelin23  
miriamelinjones.cymru

Llenor a myfyriwr PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Un o Gywion Cranogwen.

---

### Grug Muse (Gol.)

@Elan\_Grug




Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyriwr ymchwil yn adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o gerddi, *Ar Ddisberod*, y llynedd. Un o Gywion Cranogwen.

---

### Iestyn Tyne (Gol.)

@iestyn\_tyne

Llenor, cerddor ac artist o Ben Llŷn yn wreiddiol, ond sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon ar ôl cyfnod yn Aberystwyth. Mae erbyn hyn yn gweithio fel cyfieithydd rhan amser. Cyhoeddwyd ei ail gyfrol o gerddi, *ar adain*, eleni.



Ôl-rifynnau'r STAMP  
I'W LAWRLWYTHO AM DDIM

[ystamp.cymru](http://ystamp.cymru)



## DWYN I GOF

GAN  
MEIC POVEY






Actorion:  
Sara Gregory  
Gwenno Elis Hodgkins  
Rhodri Meilir  
Llion Williams

Cyfarwyddo:  
Betsan Llwyd



Mae Huw a Bet yn briod ers 40 mlynedd a Gareth, eu unig fab, ar fin priodi Cerys.  
Mae trefniadau i'w cadarnhau.  
Mae Huw'n benderfynol o chwarae ei ran ond gyda'i gof yn araf ddadfeilio mae perygl i gyfrinachau hen a newydd gael eu datgelu. Ond pa mor fregus yw Huw mewn gwirionedd?  
Sut mae Bet yn ymdopi â'r sefyllfa?  
Oes rheswm gan Gareth i boeni am bechodau'r tadau, ac a yw Cerys yn gweld y tad yn y mab?

Am fanylion y daith ewch i [www.theatrbaracaws.com](http://www.theatrbaracaws.com)



# GWASG CARREG GWALCH

[www.carreg-gwalch.cymru](http://www.carreg-gwalch.cymru) • Ffôn: 01492 642031

# DRAMÂU RADIO Y STAMP

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD 2018

THEATR Y MAES | 14:00 | Dydd Sadwrn 11.08.18

Cylchgrawn yn gwneud dramâu radio? Be nesa'? Geraint Lloyd yn cyhoeddi cyfrol o gerddi? Dyna ddywedwyd cyn llwyddiant *Pwdin Reis* gan Mari Elen, ac oes, mae 'na fwy ar y ffordd. Os am gip bach slei ar ffurf sesiwn sgript-mewn-llaw hwyliog a bywiog, dewch i Theatr y Maes yn y Steddfod ar ddydd Sadwrn yr 11fed o Awst am 2 o'r gloch. Mawr fydd eich croeso (a'ch mwynhad gobz).

## **Y LLIWIE BETH CELYN**

Pan mae'r lliwiau'n newid aiff y byd ar chwâl, a pha obaith sydd i Meg ac i bawb arall? Drama apocalyptaidd, dywyll, sy'n rhoi golwg heriol ar y gymdeithas sydd ohoni.

## **GALW GLENYS FFION HAF WILLIAMS**

'Mae'n braf siarad' yn ôl hen hysbyseb BT ac mae galwad ffôn at y rhif anghywir yn cymryd tro annisgwyl yn y ddrama deimladwy hon – galwad sy'n troi yn archwiliad o henaint, edifeirwch ac unigrwydd.

## **ALMA, ROBERT, MALI. MARED LLYWELYN WILLIAMS**

Mae gan bawb ei hanes, a tydi'r hanesion hynny ddim wastad mor syml ac mae rhai wedi cymryd eu bod nhw. Bob hyn a hyn mae ambell hanes yn cyd-blethu. Dyma gip drwy ffenestri'r tai distaw i fywydau Alma, Robert a Mali.

## **TI DDIM!? CARYS TUDOR**

Mae pob math o bethau yn gallu codi mewn sgysiau wrth deithio mewn car. Yn aml, dim ond manion o fywyd dydd i ddydd ydyn nhw, ond ma rhai teithiau'n bwysicach na'i gilydd ...

Celf y clawr gan **Steffan Dafydd**  
Argraffwyd gan **Y Lolfa**

**£4.00**